15. In **Blaenau Gwent**, the Community Cohesion Group (a partnership involving the local authority, police, Victim Support, VALREC, YOT, Communities First, Health) commissioned research from VALREC in relation to hate crime. Of those interviewed as part of this research 49% of did not report an incident which was within the hate crime category. 23% of those interviewed had been victims of disability related crime. The Group recognised that there may be under reporting of the issue of disability related crime and harassment and VALREC are seeking further funding to employ an officer to look into this further.
16. Also in **Blaenau Gwent CBC**, where vulnerability is identified or suspected (whether from a victim or perpetrator perspective) when a complaint or request for service is made, a priority marker is allocated. Where vulnerability is identified, the authority makes appropriate referrals to services such as the Bobby Van Scheme and Care and Repair as a priority. For example, following a meeting with the Deaf Community, it was arranged for 12 homes to be visited to install home and fire safety equipment. Learning from key messages from the Pilkington Serious Case Review, when working with perpetrators of anti-social behaviour, the Council and partners have adopted a revised incident sheet. When perpetrators are now referred to other agencies, the victims profile includes any vulnerability identified, including disability, so that specific and appropriate support can be offered. The Council also has an Access for All Forum for Disabled Residents and The Executive agreed to be shadowed by Members of this Group to make Executive Members aware of the problems experienced by Disabled Persons when dealing with or visiting the Civic Centre.

## Conclusion

17. It is clear from the evidence presented in the EHRC Report that disability related harassment is a common and in some case, a daily occurrence for many disabled people and although the frequency, seriousness and nature of incidents varies, too many people are suffering in silence by not reporting incidents. Even when incidents are reported, further support and action by public authorities is required to ensure disabled people receive the assistance they require to challenge and prevent incidents and most importantly, to feel and be safe. It is hoped that these findings and recommendations can help shine focus on this issue and provide an impetus for further work in this area and improvements in how disability related harassment is tackled and ultimately eliminated.

Naomi Alleyne  
Director, Equalities and Social Justice  
September 2011

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon




# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Pa mor deg yw Cymru?

Cydraddoldeb, hawliau dynol a pherthynas  
dda

Mawrth 2011



Comisiwn  
Cydraddoldeb a  
Hawliau Dynol

Equality and  
Human Rights  
Commission  
Tudalen 44

# Cynnwys

<b>Rhagair .....</b>	<b>3</b>
<b>Rhan un: Agenda ar gyfer tegwch .....</b>	<b>4</b>
<b>Rhan dau: Y cyd-destun.....</b>	<b>11</b>
Cyflwyniad .....	11
Y dirwedd gyfreithiol .....	12
Newid agweddau a barn gyhoeddus .....	13
Cymru yn y byd .....	18
<b>Rhan tri: Y dystiolaeth.....</b>	<b>22</b>
Bylchau data .....	23
Bywyd.....	25
Diogelwch Cyfreithiol a Chorfforol.....	31
Iechyd.....	37
Addysg.....	42
Cyflogaeth .....	52
Safon Byw .....	59
Gofal a Chefnogaeth.....	65
Grym a Llais.....	68
Rhoi sylw i'r bylchau data .....	71
<b>Cysylltwch â ni .....</b>	<b>72</b>

## Cydnabyddiaethau

Hoffem ni rhoi diolch i Sefydliad Bevan a New Policy Institute am eu cyfraniad i'r Adolygiad hwn.

# Rhagair

Mae'r Adolygiad hwn yn dwyn at ei gilydd, am y tro cyntaf, dystiolaeth i ateb y cwestiwn 'Pa mor deg yw Cymru?'. Mae'n cynnig safbwynt newydd ar rhai anghydraddoldebau parhaus ac mae'n nodi rhai heriau newydd.

Ym mis Hydref 2010 cyhoeddodd y Comisiwn ei Adolygiad Teirblwydd cyntaf 'How fair is Britain?' Dyma'r cyntaf mewn cyfres o adolygiadau a gyflwynir i'r Senedd bob tair blynedd. Mae'n darparu tystiolaeth annibynnol i fesur y cynnydd tuag at gydraddoldeb, perthynas dda a hawliau dynol. Argymhellwn bawb i fwrw golwg arno - mae'n cynnwys cyfoeth o ddata defnyddiol.

Mae 'Pa mor deg yw Cymru' yn gosod yr Adolygiad Teirblwydd mewn cyddestun Cymreig. Nid glasbrint ar gyfer newid yw. Mae'n nodi tystiolaeth i helpu pawb i ganolbwyntio'u hadnoddau cyfyng lle y byddant yn cael yr effaith mwyaf cadarnhaol. P'un ai tai, gofal cymdeithasol neu gyflawniad addysgol yw eich diddordeb, bydd defnyddio'r dystiolaeth hon i edrych ar y mater o safbwynt cydraddoldeb yn cynnig mewnweliadau newydd.

Rydym yn rhoi man cychwyn i fesur p'un ai yw'r penderfyniadau a wneir gennym yn awr yn ein helpu i symud tuag at gymdeithas decach. Yn y dyfodol bydd unigolion a sefydliadau'n gallu gweld yn glir lle bo'r cynnydd a lle bo'r angen i wneud mwy.

Dylai fod cyfle gan bawb yng Nghymru i ffynnu, i wireddi ei lawn botensial ac i fod yn hapus. Gobeithio, bydd yr Adolygiad hwn yn ennyn dadl dreiddgar ynghylch y ffordd orau i gyflawni hyn. Ein nod yw y bydd yn gynhorthwy i nodi'r liferi a fydd yn achosi newid ac yn annog partneriaethau a fydd yn sbarduno newid.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i sicrhau bod anghenion pawb yn cael ei gyfrif wrth adeiladu'n dyfodol.



**Ann Beynon**, Comisiynydd i Gymru

**Kate Bennett**, Cyfarwyddydd  
Cenedlaethol i Gymru

## Rhan un: Agenda ar gyfer tegwch

Mae'r dystiolaeth yn Rhan Tri yn rhoi darlun grymus o Gymru gydag anghyfartaleddau wedi'u gwreiddio'n ddwfn. P'un a edrychir ar iechyd pobl, eu henillion, eu cymwysterau, eu risg o fod yn ddiodefwr trosedd neu eu gallu i ddweud eu dweud, mae'n glir nad yw mantais, pŵer ac adnoddau wedi eu rhannu'n gyfartal.

Nid ar hap y ceir dosbarthiad anwastad o fantais mewn bywyd. Hyd yn oed gyda bylchau mewn tystiolaeth mewn rhai meysydd, yr hyn a welwn, drwy'r doreth o ystadegau, yw patrymau clir ble mae rhai grwpiau o bobl yn gyson yn sicrhau siâr fwy o gyfoeth, lles a dylanwad nag eraill. Ni all rhai grwpiau sicrhau anghenion sylfaenol bywyd y mae pobl eraill yn eu cymryd yn ganiataol.

Mae anghyfartaledd yn dominyddu'r dirwedd yn sosio-economaidd, nid lleiaf oherwydd bod graddfa ei effaith, lled ei ddylanwad, a dyfnder yr anghyfartaleddau a grëir. Ar draws y bwrdd, nid yw pobl o grwpiau sosio-economaidd is, ar gyfartaledd, yn mwynhau'r un ansawdd bywyd â phobl o grwpiau sosio-economaidd uwch: p'un a yw oherwydd disgwyliad bywyd is, cyrhaeddiad addysgol is, neu incymau a chyfoeth is. Ymhellach, mae'r anghyfartaleddau yn profi'n hirhoedlog, gyda llawer yn gwaethygu mewn blynyddoedd diweddar, er gwaethaf ymdrechion y llywodraeth i'w lleihau.

Fodd bynnag, ni ddylai'r raddfa fawr a'r her a grëir gan anghyfartaledd sosio-economaidd yng Nghymru guddio anghyfartaleddau eraill sy'n bodoli ochr yn ochr â nhw, ac sydd wedi'u rhyngblethu gydag anfantais sosio-economaidd.

Mae anghyfartaledd rhywedd yn parhau, er gwaethaf nifer o newidiadau mewn rolau rhywedd, gyda menywod yn cael eu hanfanteisio ym meysydd allweddol cyflogaeth ac incwm. Ond mae agweddau pwysig eraill o anghyfartaledd rhywedd hefyd, yn nodedig mewn gwahanol fesurau o fywyd ac iechyd, ble mae deilliannau i ddynion yn waelach nag i fenywod. Mae'r anghyfartaledd sy'n gysylltiedig ag anabledd yn drawiadol, yn effeithio ar gyflogaeth, addysg ac enillion. Mae ethnigedd yn gymhleth: er ar y cyfan fod grwpiau lleiafrifoedd ethnig gyda deilliannau llai ffafriol ar fesurau allweddol o les, mae gwahaniaethau nodedig o fewn y grwpiau nad ydynt yn wyn, gyda gwahaniaeth sosio-economaidd yn ffactor pwysig ac ychwanegol yma hefyd.

Hefyd mae oed yn rhoi darlun cymhleth: tra bod pobl ifanc yn cael tâl is a risg uwch o fod yn ddiodefwr trosedd dreisgar, mae risgiau yn gysylltiedig â bod yn hŷn, i rai o ddiffyg cyflogaeth, iechyd gwael a diffyg urddas mewn gofal.

Oherwydd bylchau yn y dystiolaeth, cymharol ychydig a wyddom am yr anghyfartaledd a wynebodd yr amryfal gredoau crefyddol neu lesbiaid, pobl hoyw, deurywiol a thrawsrywedd, a phrin hefyd yw'r wybodaeth am Sipsiwn, ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Ond nid yw absenoldeb unrhyw dystiolaeth na'r niferoedd bychan sy'n perthyn i'r grwpiau dan sylw'n golygu nad oes anghyfartaleddau i'w datrys. Y mae'r ychydig dystiolaeth sydd gennym yn awgrymu bod llawer o'r grwpiau hyn yn wynebu anghyfartaledd a rhagfarn, er enghraifft, cyfraddau uwch na'r cyffredin o fwlio ac aflonyddu.

Gan fod anghyfartaleddau sosio-economaidd yn cyd-ddigwydd gyda rhai eraill sy'n gysylltiedig â rhywedd, oed, hil, anabledd, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol a statws trawsryweddol mae'n golygu y bydd raid i unrhyw waith ar ostwng anghyfartaleddau sosio-economaidd roddi sylw'n ogystal i agweddau eraill ar anghyfartaledd – ac i'r gwrthwyneb. Nid yw'n ddigon canolbwyntio ar grwpiau sosio-economaidd heb hefyd gydnabod bod sefyllfa menywod a dynion, lleiafrifoedd gwynion ac ethnig a phobl anabl a rhai abl yn wahanol iawn i'w gilydd y tu mewn i'r grwpiau hynny. Yn yr un modd nid yw'n ddigon canolbwyntio'n llwyr ar 'grwpiau a ddiogelir', beth bynnag fo'u hamgylchiadau sosio-economaidd.

Felly, ar y naill law, rhaid mynd i'r afael ag anghyfartaleddau sosio-economaidd sydd wrth wraidd polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU ond hefyd, ar y llaw arall, rhaid eu hintegreiddio'n effeithiol gyda gwaith hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y 'grwpiau a ddiogelir' a gweddill y gymdeithas.

Mae yma her fawr, ond rhaid ei hwynebu cyn y gall pobl yng Nghymru gyflawni eu llawn botensial, beth bynnag fo'u cefndir neu eu nodweddion personol.

Yma rydym yn amlygu'r sialensiau penodol sy'n wynebu Cymru dros y pum mlynedd nesaf. Wrth wneud hynny mae'n sefydlu'r 'agenda ar gyfer tegwch' yng Nghymru.

## **Bywyd ac iechyd**

### **Lleihau anghydraddoldebau iechyd rhwng grwpiau sosio-economaidd – yn enwedig y rheiny sydd yn effeithio ar ddynion ifanc a hŷn**

Mae'r anghyfartaleddau sosio-economaidd o ran rhagolygon bywyd ac iechyd yn arw. Gwelir gwahaniaethau sylweddol yng nghyswllt disgwyliad bywyd ac ym mhresenoldeb gwaeledd tymor hir caethiwus, anabledd ac iechyd gwael rhwng grwpiau sosio-economaidd. Yn nhermau disgwyliad bywyd, mae anghyfartaleddau sosio-economaidd ac anghyfartaledd rhyweddau ynghyd yn arwain at ganlyniadau eithriadol o wael i ddynion o gefndiroedd dosbarth gweithiol yng Nghymru. Mae disgwyliad bywyd yng Nghymru yn fyrrach nag yn Lloegr, ond hefyd mae dyn yng Nghymru â disgwyliad bywyd sydd bedair blynedd yn llai na menyw tra bo dyn o ardal ddifreintiedig â disgwyliad bywyd byrrach na dyn o rannau mwyaf llewyrchus Cymru. At hyn rhaid cofio am y risg uwch o hunanladdiad a marw trwy ddamwain yn achos y rheiny o'r grwpiau sosio-economaidd is, a'r bobl ifanc yn wynebu risgiau arbennig.

Yn nhermau iechyd gwael, mae grŵp sosio-economaidd ynghyd ag oed fel cyfuniad yn creu canlyniadau gwael i bobl hŷn o gefndiroedd dosbarth gweithiol ac i'r ardaloedd difreintiedig. O ganlyniad mae rhannau o Gymru lle mae dros hanner y bobl dros 55 oed hefyd yn anabl. Gan fod y rhagolygon yn dangos y bydd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl hŷn yng Nghymru, mae statws iechyd y grŵp hwn yn fater o bwys mawr.

Bu ymdrin ag anghyfartaleddau iechyd sy'n perthyn i'r grŵp sosio-economaidd yn flaenoriaeth ym mholisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, ond ni chawsant o'r blaen eu trin ynghlwm wrth rywedd ac oed. Law yn llaw â'r amcan cyffredinol o wella iechyd pobl Cymru, byddai mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn yn gwella bywyd unigolion ac yn gostwng y gost i bwrs y wlad o ran cynhyrchiant a gollwyd a galwadau ar wasanaethau'r GIG.

## **Addysg a sgiliau**

**Cau'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng grwpiau sosio – economaidd gwahanol – gan gynnwys yr un ar fechgyn, plant anabl a disgyblion du, Pacistanaid a Bangladeshaid.**

**Lleihau'r nifer o bobl ifanc sy ddim ym myd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.**

Mewn addysg, fel yn achos iechyd, mae pwysau tystiolaeth yn dangos bod y grŵp sosio-economaidd yn dangos un o'r rhaniadau amlycaf yn y gymdeithas yng Nghymru.

O'r blynyddoedd cynnar ymlaen hyd nes yn oedolyn mae pobl o'r grwpiau sosio-economaidd is, ar gyfartaledd, yn cael canlyniadau addysgol salach na rhai o'r grwpiau uwch. Nid yn unig y mae hyn i'w weld mewn cyrhaeddiad addysgol ac yn y cyfranogiad ar draws y sbectrwm oed, ond hefyd gwelir ef yn y meysydd cysylltiol megis gwaharddiad o'r ysgol ac yn achos rhai ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Er mai anghyfartaleddau sosio-economaidd yw'r rhai mwyaf arwyddocaol ac mai nhw sy'n cael yr effaith ar y nifer fwyaf o'r boblogaeth, rhaid peidio ag anghofio am effaith yr anghyfartaleddau eraill. Mae tair agwedd arall ar anghyfartaledd yn amlwg iawn.

Yn gyntaf, cyrhaeddiad is bechgyn o'u cymharu â genethod. Gwelir hyn yn glir yr holl ffordd o ddyddiau ysgol i oed bod yn oedolyn, a chaiff ei amlygu mewn camau megis gwaharddiadau o'r ysgol a'r tebygrwydd o fod yn NEET. Felly rhaid i unrhyw gamau i wella cyrhaeddiad addysgol bechgyn fod yn rhan annatod o gamau i wella cyrhaeddiad grwpiau sosio-economaidd is.

Yn ail, gwahaniaethau rhwng grwpiau ethnig. Yma mae'n amlwg fod y gwahaniaethau'n fwy cymhleth o lawer na'r gwahaniaeth syml rhwng grwpiau gwynion a rhai sydd ddim yn wynion: ar gyfartaledd mae grwpiau Tsieineaidd ac Indiaidd yn perfformio'n well na phlant o grwpiau gwynion yn 16 oed, tra bo disgyblion Du, Pacistanaidd a Bangladeshaid ar gyfartaledd yn gwneud yn waeth.

Yn drydydd ceir yr anghyfartaleddau sy'n gysylltiedig ag anabledd. Er bod y dystiolaeth yn pwysu ar sawl math o ddiffiniad o anabledd, y mae'n amlwg iawn bod plant anabl yn fwy tebygol o gael eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol, bod ganddynt lefelau cyrhaeddiad is a hefyd eu bod yn llai tebygol o ennill cymwysterau addysg uwch na phlant heb anableddau. Mae canlyniadau addysgol salach plant anabl yn cyfrannu tuag at ragolygon gwannach yn y farchnad lafur yn y man. Mae angen cymryd camau i wella'r canlyniadau addysgol i blant a phobl ifanc anabl.

Dylid gwneud mwy o lawer i ostwng yr anfantais sosio-economaidd. Fel rhan integredig o'r gwaith hwnnw, rhaid rhoddi sylw i anghenion bechgyn a merched, disgyblion du a lleiafrifoedd ethnig eraill, yn ogystal â dysgwyr anabl.

Bydd datblygu sgiliau yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth ac enillion gwell i unigolion a bydd yn hanfodol o ran llwyddiant economaidd Cymru yn y dyfodol.



## Cyflogaeth

**Cynyddu cyfraddau cyflogaeth i bawb, yn arbennig pobl anabl a phobl hŷn.**

**Cau bylchau cyflog ar sail hil, anabledd a rhwng y rhywiau yn gyflymach ac ymhellach.**

Hyd yma mae'r anghyfartaleddau yng Nghymru yn bur debyg i'r rhai sy'n wynebu'r DU yn gyffredinol ond mae gwahaniaeth ar fater cyflogaeth.

Nid ymhlith pobl sydd eisoes mewn swydd – lefel eu cyflogau, y gwaith a wnânt a'u profiadau yn y manau gweithio – y mae'r anghyfartaleddau mwyaf trawiadol ond yn hytrach y rheiny rhwng y rhai sy'n gweithio a'r rhai heb waith. Mae'r gyfradd gyflogaeth gyffredinol yng Nghymru gryn dipyn yn is na honno ar draws y cyfan o Brydain, ac yn arbennig yn achos dynion. Fodd bynnag, mae rhan sylweddol o'r gwahaniaeth cyffredinol mewn cyfraddau cyflogaeth i'w phriodoli i gyfraddau cyflogaeth eithriadol o isel ymhlith pobl fethedig a'r bobl hŷn yng Nghymru. Yn wir mae'r rhai heb unrhyw anabledd a phobl hanner ffordd drwy eu hoes waith yng Nghymru gyda'r un gyfradd gyflogaeth, bron, â'r cyfartaledd Prydeinig.

Yn sgil globaleiddio'r economi a'r rhagolygon y gwelwn barhad yn yr arafwch economaidd bydd ceisio gwella cyfraddau cyflogaeth yn her wirioneddol anodd ond angenrheidiol.

Ymhlith y rhai mewn cyflogaeth, y bwlch cyflog yw un o'r meysydd mwyaf trawiadol o anghyfartaledd. Yn gyffredinol mae'r cyflogau canolradd yng Nghymru yn is na'r cyfartaledd Prydeinig, ac mae hyn yn lleihau'r bwlch cyflog rhwng enillion menywod ac enillion dynion, a rhwng enillion pobl fethedig ac enillion pobl heb fod yn fethedig. Er gwaethaf lleihau'r bwlch nid yw hwnnw wedi cael ei ddileu. Un anghyfartaledd a wreiddiodd yn ddwfn ac sy'n parhau yw'r cyflogau yn ôl yr awr a delir i weithwyr benywaidd llawn amser, i weithwyr anabl, i weithwyr Pacistanaidd a rhai Bangladeshaid – mae'r cyfraddau hyn yn is na'r rhai i weithwyr heb anabledd ac i ddynion.

Yn y dyfodol, bydd y newidiadau mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus, (lle mae cymaint o fenywod Cymru yn gweithio), yn ychwanegu at y bylchau oherwydd pwysau cyllidol dyrys iawn a hefyd y cloffrwm cyflogau.

Efallai y bydd oes o incwm isel yn golygu tlodi yn nyddiau henaint.

'Run pryd ag ymdrin â chyflog isel, fe ddylid, fel blaenoriaeth, fynd ati i gau'r bwlch cyflog cyfredol.

## Diogelwch cyfreithiol a chorfforol

**Lleihau'r nifer o drais rhywiol a domestig a lleihau troseddau casineb a bwlio homoffobig, trawsffobig ac ar sail crefydd ac anabledd.**

Er bod y dystiolaeth i ddiogelwch cyfreithiol a chorfforol yn brin oherwydd absenoldeb cymharol data, y mae dau fater allweddol yn bur amlwg.

Yn gyntaf, digwyddiadau troseddau treisgar a'r ofn yn eu cylch. Pobl ifanc a grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddiodef troseddau treisgar yn gyffredinol, a menywod sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddigon o ran trais rhywiol (yn cynnwys treisio) a thrais domestig. Menywod, pobl fethedig, pobl hŷn, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl o'r grwpiau sosio-economaidd is sydd fwyaf tebygol o fod ofn trosedd dreisgar.

Mae dwy fenyw yn cael eu lladd bob wythnos o ganlyniad i gam-drin domestig. Mae hefyd yn distrywio teuluoedd ac yn costio lledamcan o £6 biliwn y flwyddyn i economi'r DU. Mae ceisio lleithau cam-drin domestig, trais rhywiol a trosedd casineb yn fater cymhleth a gall hefyd sugno adnoddau sylweddol. Wrth i'r toriadau mewn gwariant cyhoeddus ddechrau taro mae'n bwysig iawn sicrhau parhad yn y llwyddiant a gafwyd hyd yma.

Yn ail, mae'r cwestiwn o ddiffyg hyder yn y system gyfiawnder a'r heddlu yn codi. Mae'r lefel isel o hyder yn yr heddlu yng Nghymru (a thrwy Brydain yn gyffredinol) yn drawiadol. Ni all yr heddlu weithredu'n effeithiol ar y system cyfiawnder troseddol heb sicrhau hyder y cyhoedd yn ei waith. Ond prin hanner poblogaeth Cymru sy'n credu bod y system cyfiawnder troseddol yn deg ac ymhlith pobl anabl, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, Sipsiwn, ceiswyr lloches a phobl trawsryweddol mae lefelau'r hyder yn is nag ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol.

O ganlyniad i lefelau isel o hyder ni chaiff nifer arwyddocaol o droseddau casineb eu sôn amdanynt ac ni cheir cyfiawnder yn aml. Mae atal troseddau casineb yn gam hanfodol tuag at adeiladu perthynas dda rhwng grwpiau yn y gymdeithas. Lle bo troseddau casineb yn digwydd, bydd cynyddu'r gyfradd o sôn amdanynt yn orchwyl pwysig.

## **Grym a llais**

Cynyddu cyfranogiad grwpiau gwarchodedig i wneud penderfyniadau a sicrhau bod cyrff y trydydd sector a'r sectorau preifat a chyhoeddus yn cynrychioli'r bobl y maen nhw'n gwasanaethu.

Pan ddaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru i rym yn 1999 roedd yn gwbl ymrwymedig i gefnogi lleisau'r bobl yn y broses o wneud penderfyniadau, trwy ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a mesurau penodol i wella cynrychiolaeth menywod a hybu lleisiau'r holl grwpiau di-rym. Ond mae'r dystiolaeth, er ei bod yn anghyflawn, yn awgrymu nad yw'r rheiny sy'n perthyn i grwpiau a ddiogelir byth wedi cael cyfle i gyfranogi'n llawn yn y broses o wneud penderfyniadau a mwynhau'r un pŵer a'r un dylanwad â hwnnw y mae rhai grwpiau'n ei fwynhau ers degawdau.

## **Y camau nesaf**

Yng Nghymru, dros y pum mlynedd nesaf, bydd raid i Lywodraeth Cynulliad Cymru wynebu sawl her anodd. Bydd gwneud cynnydd yn yr heriau yr ydym wedi nodi, yn gwneud cyfraniad grymus i fywydau unigolion, i'w teuluoedd ac i'r economi yng Nghymru.

Yn wyneb y pwysau mawr ar gyllid cyhoeddus a hefyd i'r trawsnewidiadau sy'n digwydd yng nghymunedau Cymru, rhaid cael ymrwymiad cadarn i greu Cymru sy'n deg a hefyd yn llewyrchus ac yn gynaliadwy. Nid opsiwn ychwanegol yw 'tegwch', na chydraddoldeb – rhywbeth i'w ychwanegu pan fo'r amgylchiadau'n dda ac wedyn ei roi o'r neilltu pan fo pethau'n ddrwg – ond rhywbeth sylfaenol y mae'n rhaid ei gael fel rhan o sicrhau ansawdd bywyd rhesymol i bawb.

# Rhan dau: Y cyd-destun

## Cyflwyniad

Ar sawl cyfrif mae Cymru'r 21ain Ganrif yn wahanol i'r hyn oedd ddeng mlynedd ar hugain yn ôl. Bellach mae'n norm i fenywod gael gwaith yn talu cyflog ac erbyn heddiw mae menywod, ychydig rhaid dweud, yn dal rhai o'r swyddi uchaf. Mae Cymru wedi cael ei Haelod Cynulliad cyntaf o rengoedd y lleiafrif ethnig, tra bo Heddlu De Cymru am y tro cyntaf erioed wedi uwch swyddog o leiafrif ethnig. Hefyd mae rhai gwleidyddion o Gymru ac o'r sector chwaraeon wedi 'dod allan' a chrëwyd mwy na 1,200 o bartneriaethau sifil ers 2005.

Ond hefyd mae yma yng Nghymru nifer o bethau sydd heb newid. Menywod sy'n dal i gymryd y rhan fwyaf o'r cyfrifoldebau domestig ac maent y fwy tebygol o fod mewn swyddi rhan amser gan ennill llai o gyflog na'r dynion. Mae pobl o'r lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol a thrawsryweddol i gyd yn wynebu risg troseddau casineb a bwlio. Hefyd mae cyfleon bywyd pobl o'r grwpiau sosio-economaidd is yn sylweddol is na rhai cyfatebol pobl o'r grwpiau sosio-economaidd uwch.

Mae'r Adolygiad Teirblwydd hwn o gydraddoldeb yng Nghymru yn dilyn arolwg a gynhaliwyd ar draws Prydain gyfan.<sup>1</sup> Mae'n nodi'r agweddau allweddol o gydraddoldeb, gan ddefnyddio Fframwaith Mesur Cydraddoldeb yr EHRC a data sy'n arbennig i Gymru, ac ynddo ceir agenda ar gyfer gweithredu. Er nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrrff cyhoeddus Cymru yn rheoli popeth all ddod â newidiadau i Gymru mae agenda cydraddoldeb a phwerau cyfreithiol arbennig Cymru yn cyn creu cyfle i newid pethau.

---

<sup>1</sup> Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2010) How fair is Britain?

## Y dirwedd gyfreithiol

Mae cydraddoldeb yng Nghymru, ac ym Mhrydain hefyd, dan reolaeth corff sylweddol o ddeddfwriaeth sydd, dros y blynyddoedd, wedi cynnwys mwy a mwy o feysydd pwnc penodol a nifer gynyddol o grwpiau o bobl.

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn drobwynt, gan roddi'r holl 'nodweddion a ddiogelir', sef oed, anabledd, hil, crefydd neu gred, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol yn gyffredinol ar yr un gwastad. Yn ogystal â chaniatau i unigolion wneud cais am driniaeth anghyfartal, mae'n rhoi sefydliadau'r sector cyhoeddus dan ddyletswydd i sicrhau cydraddoldeb.

Ond hefyd mae Cymru wedi datblygu ei agenda cydraddoldeb ei hun trwy weithredu ar agweddau o gyfraith Prydain a hefyd trwy ddeddfwriaeth a pholisïau sy'n arbennig i Gymru. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhoddi i Weinidogion Cymru'r pŵer i orfodi dyletswyddau cydraddoldeb penodol ar awdurdodau cyhoeddus Cymru. Dan y cynigion arfaethedig<sup>2</sup> bydd gofyn i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yndo 'amcanion cydraddoldeb', cynigion i gwrdd â'r amcanion a'u dull o ymwneud â phobl gyda nodweddion a ddiogelir. Bydd raid rhoddi sylw i sefydlu amcan cydraddoldeb neu beidio yng nghyswllt cau'r bwlch cyflog. Mae'r rhain, o ran ethos a manylion, yn bur wahanol i'r rheiny sy'n berthnasol i gyrff cyhoeddus yn Lloegr.<sup>3</sup>

Yn eu manylion deddfwriaethol mae Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006 yn datgan bod rhaid i Weinidogion Cymru fod ag 'ystyriaeth briodol i'r egwyddor y dylid bod cydraddoldeb cyfle i bawb'. Mae'r gofynion hyn wrth wraidd ymrwymiad cadarn i gydraddoldeb a hawliau dynol mewn nifer o bolisïau megis rhai i blant, pobl hŷn a ffoaduriaid a cheiswyr lloches, lle cynhyrchwyd strategaethau a chynlluniau a hefyd lle rhoddwyd, mewn rhai achosion, symiau penodol o arian i weithredu ar amryfal raglenni.

---

<sup>2</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Deddf Cydraddoldeb 2010: (Dyletswyddau Strategol) (Cymru) Rheoleiddiadau 2011

<sup>3</sup> Swyddfa Cydraddoldebau (2010) Deddf Cydraddoldeb 2010: Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

Hefyd mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi grym i Gynulliad Cenedlaethol Cymru lunio ei ddeddfwriaeth ei hun ar rai pynciau megis agweddau ar gydraddoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mesur Addysg (Cymru) 2009 – yn rhoi'r hawl i blant apelio yng nghyswllt Anghenion Addysg Arbennig a Gwahaniaethu ar sail Anabledd mewn ysgolion.
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 – yn cynnwys mwy o fynediad i wasanaethau eiriolaeth.
- Mesur Llywodraeth Leol Arfaethedig – yn cynnwys dyletswydd i gasglu data am ymgeiswyr mewn etholiad, hawliau absenoldeb teulu i aelodau etholedig a'r ddyletswydd i dynnu pobl ifanc i mewn.
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc Arfaethedig – yn mynnu bod Gweinidogion yn rhoddi sylw i egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Mesur Iaith Gymraeg 2010 – yn rhoddi statws cyfartal i'r iaith Gymraeg ac yn creu Comisiynydd.

## **Newid agweddau a barn gyhoeddus**

### **Newidiadau yn y boblogaeth a'r gymdeithas**

Yn y blynyddoedd diwethaf gwelwyd newidiadau enfawr ym mhoblogaeth Cymru ac mae hi bellach yn fwy amrywiol nag erioed.

Y peth amlycaf yw'r gyfran gynyddol o bobl hŷn yn y boblogaeth: 18% dros 65 oed yn 2009, sef cynnydd o 9.1% ers 1999. Disgwylir i'r niferoedd gynyddu eto erbyn 2023 wrth i 190,000 arall gyrraedd 65 oed.<sup>4</sup>

Mae lefelau anabledd hefyd werth eu nodi. Yn 2009 roedd tua un o bob pump o boblogaeth oed gweithio Cymru'n anabl, a thua un o bob deg yn anabl oherwydd salwch meddwl.<sup>5</sup> Mae cyfran Cymru o bobl hŷn ac o bobl anabl yn uwch na chyfran Prydain yn gyffredinol.

---

<sup>4</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Poblogaeth Cymru - trosolwg demograffig 2010. Ar gael yn: <http://wales.gov.uk/docs/statistics/2010/101027walespopulationen.pdf>

<sup>5</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Cyffredinrwydd Anabledd yng Nghymru, 2004-2007. SB 76/2008. Diffinnir anabledd yn ôl y DDA

Mae newidiadau eraill yn ymwneud â niferoedd llai ond er hynny maent yr un mor arwyddocaol. Rhyw ychydig dan 3% o boblogaeth Cymru sy'n perthyn i grŵp lleiafrif ethnig (tua 36,000 o bobl o dras Asiaidd /Prydeinig Asiaidd a 23,700 o dras hil gymysg).<sup>6</sup> Mae yng Nghymru rhyw 2,000 o Deithwyr Sipsiwn a 10,000 o geiswyr lloches.<sup>7</sup>

Nid oed gan oddeutu un o bob pump unrhyw gred grefyddol (18.5%) – ymhlith y rheiny gyda chrefydd dim ond 2.5% ohonynt sydd ddim yn Gristionogion.<sup>8</sup>

Dywed cyfran fechan o boblogaeth Cymru (1.7%) eu bod yn hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol (ond mae'r nifer wirioneddol yn debygol o fod gryn dipyn yn uwch).<sup>9</sup> Ni wyddom beth yw nifer y bobl drawsryweddol.

Yn ogystal mae'r gymdeithas yng Nghymru wedi newid. Mae teuluoedd heddiw'n wahanol iawn i'r hyn oeddent 50 mlynedd yn ôl: mae llai yn priodi heddiw a mwy yn byw ar bennau'u hunain, gyda phartner neu ar aelwydydd 'cymhleth'. Mae menywod yn gohirio cael plant, yn cael llai ohonynt nag yn y gorffennol a llawer yn eu cael y tu allan i briodas – roedd dros hanner (56%) holl enedigaethau Cymru yn 2009 yn rhai i famau dibriod.<sup>10</sup>

Mae mwy o fenywod a llai o ddynion yn gweithio heddiw na'r amser a fu, a bellach mae gweithio rhan amser yn beth cymharol gyffredin. Gwelwyd menywod yn torri trwodd rhyw fymryn i faes swyddi dynion (a'r gwrthwyneb yn digwydd hefyd) ac mae'r bwlch cyflog rhywedd yn llai ond heb gau.

---

<sup>6</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Rhagamcanion Poblogaeth yn ôl Grŵp Ethnig, 2001-2007, Bwletin Ystadegol 4/2010

<sup>7</sup> Winckler, V. ed. (2009) Equality Issues in Wales – a Research Review. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

<sup>8</sup> Lee, R. (2007) 'A Social Audit of the Muslim Community in Wales'. *Statistical Article*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael ar: <http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/40382313/statistics/other/sa10a.pdf?lang=en>

<sup>9</sup> Ystadegau Cymru Tabl 025006 Arolwg Aelwydydd Integredig – Hunaniaeth Rywiol yn ôl Awdurdod Lleol. Cyrchwyd ar 7<sup>fed</sup> Ionawr 2011.

<sup>10</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Ystadegau Genedigaethau a Marwoldeb Babanod, 2008. SB 18/2010

Bu newid yn y cysylltiadau cymdeithasol: mae'r cynnydd yn y nifer sydd yn berchen ar gar yn golygu ei bod yn llawer iawn rhwyddach symud o gwmpas nag yn y gorffennol, a gwelwyd cynnydd dramatig yn y mynediad i'r rhyngrwyd ac yn y defnydd a wneir ohoni. Fodd bynnag mae'r mwyafrif mawr (85%) yn teimlo eu bod yn rhan o'u cymdogaeth gyda phedwar o bob deg yn chwarae rhan mewn corff cymdeithasol neu ddiwylliannol.<sup>11</sup>

Daeth newidiadau hefyd i'r defnydd a wneir o'r Gymraeg – dywed dros un rhan o bump o'r boblogaeth eu bod â'r gallu i'w siarad (58% ohonynt yn rhugl), sef cynnydd bychan ar ôl canrif o ddirywiad.

Yng Ngwynedd a Môn mae dros hanner y boblogaeth yn siarad Cymraeg<sup>12</sup> a thros dri chwarter o'r rheiny'n dweud eu bod yn rhugl ynddi.<sup>13</sup>

Ond gyda'r holl newidiadau hyn erys anghyfartaleddau disymud yng Nghymru, ac mae'r bwlch rhwng y rhai gyda'r mwyaf a'r lleiaf o fodd yn ei unfan bron dros y deng mlynedd diwethaf. Mae'r degfed ran gyfoethocaf o'r boblogaeth yn meddu ar tua 25% o incwm Cymru tra bod y degfed ran fwyaf tlawd yn meddu ar 1.5% yn unig. Mae'r anghyfartaledd sosio-economaidd hwn yn treiddio i bob rhan o'r gymdeithas yng Nghymru.

## **Newidiadau mewn agweddau a barn**

Mae pobl Cymru, fel rhai Prydain drwyddi draw, yn fwy goddefgar mewn amryw o ffyrdd tuag at bobl o gefndiroedd gwahanol. Dywed dros hanner y boblogaeth (58.3%) bod y wlad ar ei hennill o gael amrywiaeth o ddiwylliannau gwahanol.<sup>14</sup>

Mae arolygon yn dangos bod y mwyafrif yng Nghymru, fel ym Mhrydain, yn gyffyrddus gyda phobl o grwpiau hil eraill. Ni fuasai gan dros dri chwarter ohonynt unrhyw wrthwynebiad petai perthynas agos yn priodi rhywun o gefndir ethnig gwahanol,<sup>15</sup> a dim ond un o bob deg sy'n credu ei bod hi'n iawn gwrthod lle i rywun mewn llety gwely a brecwast ar sail hil. Mae'r rhan fwyaf ag agweddau positif tuag at bobl gyda chrefyddau gwahanol, a dim ond 8% yn teimlo'n anhapus gyda pherthynas agos yn priodi rhywun o grefydd wahanol.

---

<sup>11</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Arolwg Byw yng Nghymru, 2008

<sup>12</sup> Cyfrifiad Poblogaeth 2001

<sup>13</sup> Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2008) Arolygon Defnydd yr Iaith Gymraeg 2004-06

<sup>14</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Arolwg Byw yng Nghymru 2007, Tabl 1

<sup>15</sup> ibid



Mae agweddau at rolau dynion a menywod yng Nghymru, fel yn Adolygiad Teirblwydd Prydain, gan fwyaf yn bositif. Mae naw allan o bob deg unigolyn yn credu y dylai tadau yn ogystal â mamau fedru cael amser yn rhydd i ofalu am blant sâl. Mae bron i hanner yn credu bod menywod yn cael eu trin yn annheg yn y gwaith ac ychydig dros hanner yn cefnogi hyfforddiant a chymwysterau ychwanegol i fenywod.<sup>16</sup>

Ond nid yw'n newyddion da i gyd. Mae agweddau at bobl anabl yn gymhleth: mae tua dwy ran o dair o bobl anabl yn teimlo bod peth gwahaniaethu yn eu herbyn fel grŵp, a thraean o'r holl bobl yn teimlo nad yw pobl anabl yn cael eu trin yn annheg.<sup>17</sup> Mae agweddau'n hynod o negyddol tuag at bobl â chyflyrau iechyd meddwl: mae pedwar o bob deg o bobl yn credu nad yw rhywun sy'n profi iselder yn addas i fod yn athro, tra byddai 37% yn anhapus pe byddai perthynas agos iddynt yn priodi rhywun â chyflwr iechyd meddwl.<sup>18</sup>

Mae oedran yn fater hefyd: mae llawer yn teimlo nad yw pobl hŷn yn parchu pobl ifanc, ac nid yw dwy ran o dair o bobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael gwrandawriad.<sup>19</sup> Yn gyffredinol mae agweddau at Deithwyr Sipsiwn yn negyddol: mae 63% o bobl yn credu bod Teithwyr Sipsiwn yn anaddas i fod yn athrawon ac ni fyddai 38% yn hapus i berthynas agos iddynt i briodi Teithiwr Sipsi.<sup>20</sup> Mae bron i ddwy ran o dair o bobl yn anghytuno'n llwyr â'r ffaith na fyddai ganddynt unrhyw wrthwynebiad i safle Teithwyr Sipsi fod yn agos i'w cartref.<sup>21</sup> Ni ystyrir ceiswyr lloches chwaith yn dda: byddai 37% yn anhapus â pherthynas agos iddynt yn priodi ceisiwr lloches.<sup>22</sup>

---

<sup>16</sup> EHRC Cymru (2009) Pwy ydych chi'n ei weld?

<sup>17</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Arolwg Byw yng Nghymru 2008

<sup>18</sup> EHRC Cymru (2009) Pwy ydych chi'n ei weld?

<sup>19</sup> *ibid*

<sup>20</sup> *ibid*

<sup>21</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *op. cit.*

<sup>22</sup> EHRC Cymru (2009) Pwy ydych chi'n ei weld?

Er nad oes amheuaeth bod gwelliant wedi bod mewn agweddau tuag at bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yng Nghymru, mae rhagfarn yn dal i fodoli. Mae pobl yng Nghymru ymysg y rhai lleiaf tebygol yn y DU o gytuno bod angen ymdrin â rhagfarn gwrth-hoyw,<sup>23</sup> ac un rhan o bump (22%) yn credu bod unigolyn lesbiaidd neu hoyw yn anaddas i fod yn athro, 17% yn credu ei fod yn annerbyniol i sefydliad gwely a brecwast wrthod cais am lety gan gwpl lesbiaidd neu hoyw, a byddai mwy na chwarter (26%) yn anhapus i berthynas agos iddynt i briodi neu ffurfio perthynas tymor hir â rhywun o'r un rhyw.<sup>24</sup>

Mae llawer o bobl yng Nghymru yn anghyfforddus ynglŷn â phobl trawsryweddol: gydag ond traean o oedolion yn dweud y byddant yn hapus i berthynas iddynt gael perthynas tymor hir ag unigolyn trawsryweddol a bron i hanner yn credu bod unigolyn trawsryweddol yn anaddas i fod yn athro.

## Profiadau o wahaniaethu

Mae llawer o bobl yn adrodd eu bod yn profi gwahaniaethu, aflonyddu a chamdriniaeth. Mae tua 10% o'r boblogaeth ar y cyfan wedi profi digwyddiad o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn y pum mlynedd diwethaf.<sup>25</sup> Mae rhai grwpiau, fel pobl ifanc a phobl anabl,<sup>26</sup> pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol,<sup>27</sup> ffoaduriaid a cheiswyr lloches,<sup>28 29</sup> pobl trawsryweddol,<sup>30</sup> pobl â chyflyrau iechyd meddwl<sup>31</sup> a phobl hŷn<sup>32</sup> yn adrodd lefelau llawer uwch o wahaniaethu ac aflonyddu – dywedodd hyd at traeantraean o'r holl bobl anabl rhwng 16-39 oed eu bod wedi dioddef gwahaniaethu neu aflonyddu.

---

<sup>23</sup> Stonewall (2007) Living Together: British attitudes to lesbian and gay people. London: Stonewall

<sup>24</sup> EHRC Cymru (2009) Pwy ydych chi'n weld?

<sup>25</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Arolwg Byw yng Nghymru, 2008 p67

<sup>26</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Arolwg Byw yng Nghymru, 2008 Chart 9.1

<sup>27</sup> Williams, M.L. and Robinson, A.L. (2007) Counted In! The All Wales Survey of Lesbian, Gay and Bisexual People. Llundain: Stonewall

<sup>28</sup> Crawley, H. (2009) Refugees Living in Wales - A survey of skills, experiences and barriers to inclusion. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

<sup>29</sup> EHRC Cymru (2010) Mwy nag ystadegyn.

<sup>30</sup> EHRC (2010) Mwy nag ystadegyn

<sup>31</sup> EHRC (2010) Mwy nag ystadegyn

<sup>32</sup> Parry, O., Warren, E., Carnwell, R. and Baker, S. (2009) Voices of Older People in Wales - a qualitative study of health and wellbeing among the over 50s

## Cymru yn y byd

Mae Cymru ynghyd â gweddill Prydain yn wynebu newidiadau mawr iawn yn y blynyddoedd nesaf a fydd yn effeithio ar strwythur cyffredinol yr economi a chymdeithas, yn ogystal ag effeithio ar wahanol grwpiau mewn cymdeithas mewn gwahanol ffyrdd.<sup>33</sup>

Dynododd Adolygiad Teirblwydd Prydain dri ffactor sylweddol a fydd yn effeithio ar safle cymharol grwpiau gwahanol o bobl - economi'r byd a'r dirwasgiad, gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus a diwygiad gwasanaethau cyhoeddus, a newid demograffaid tymor-hir, yn enwedig cynnydd mewn hirhoedledd a mudo. Mae'r rhain yn cyflwyno heriau i ymdrechion i ostwng anghyfartaledd, gan gynnwys y risg o feysydd newydd o anghyfartaledd yn ymddangos, yn ogystal â chyfleoedd i sicrhau cymdeithas fwy cyfartal.

### Globaleiddio a dirwasgiad

Gwaethygodd y dirwasgiad byd-eang a ddechreuodd yn 2008 safle economaidd Cymru a oedd eisoes yn wan. Mae'r duedd at i lawr mewn cyflogaeth cynhyrchu wedi cyflymu drwy golled o tua 45,000 o swyddi mewn dwy flynedd gan gyflogwyr mawr fel Bosch, Hoover a Hotpoint, ar yr un pryd â gwasgu ar wasanaethau cyhoeddus a phreifat. Pobl ifanc 16-24 oed a dynion a brofodd y gostyngiad cyfrannol mwyaf mewn cyflogaeth.

Yn adlewyrchu'r swyddi a gollwyd, cynyddodd diweithdra yng Nghymru o 45% (36,000 o bobl) i 7.7% rhwng 2008 a 2010 ac eto, pobl ifanc rhwng 16-24 oed a dynion o bob oed a brofodd y cynnydd mwyaf mewn niferoedd di-waith o bell ffordd, yn yr un modd ag y bu i ddiweithdra ymysg dynion lleiafrif ethnig ddyblu bron dros yr un cyfnod. Erbyn Mehefin 2010 roedd dros chwarter dynion ifanc yng Nghymru yn ddi-waith.

Mae lefelau uchel o ddiweithdra yng Nghymru yn eistedd ochr yn ochr â lefelau sydd eisoes yn uchel o anweithgaredd economaidd, yn bennaf yn gysylltiedig â salwch ac anabledd, gan roi record anffodus i Gymru o fod â'r raddfa gyflogaeth isaf o wledydd Prydain ar gyfer yr holl grwpiau oed, y ddau ryw, a phobl anabl a phobl heb anabledd. Dim ond y gyfradd gyflogaeth ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig sydd uwch ben y gyfradd gyfatebol i genhedloedd eraill.

---

<sup>33</sup> Mae'r holl ddata yn yr adran hon o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol a gyrchwyd drwy NMOS oni bai y nodir fel arall.

Mae'n holl bwysig y cymerir amrywiaeth gweithlu Cymru i ystyriaeth lawn wrth ymdrin â phroblemau economaidd Cymru, nid lleiaf oherwydd bod bron i hanner y gweithlu yn fenywod, mwy na chwarter dros 50 oed ac un o bob saith yn anabl. Mae gan leiafrifoedd ethnig, menywod, pobl anabl a phobl hŷn Cymru gyfoeth o dalentau a phrofiad i'w gynnig i'r byd cyflogaeth.

## Diwygio gwasanaethau cyhoeddus

Dros y pedair blynedd nesaf mae gwariant cyhoeddus yn wynebu pwysau na welwyd mo'i debyg o'r blaen. Bydd cyllidebau adrannol llywodraeth y DU yn cael eu torri ar gyfartaledd o 19% erbyn 2014-15, er bod amrywiaeth sylweddol o amgylch y ffigwr hwn.<sup>34</sup> Bydd cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei thorri o 7.5%, gostyngiad mwy nag yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.<sup>35</sup> Gallai effaith y pwysau hwn gymryd sawl ffurf.

Yn gyntaf, colled swyddi: un amcangyfrif yw y gellid colli 52,000 o swyddi - 4.3% o'r holl gyflogaeth yng Nghymru - drwy effaith gyfunol toriadau yn y gweithlu sector gyhoeddus, toriadau mewn contractau sector gyhoeddus a'r effaith lluosydd ar yr economi leol.<sup>36</sup> Mae llawer yn proffwydo bod y crynodiad o weithwyr benywaidd yn y sector gyhoeddus yn golygu y byddant yn cael eu heffeithio'n arbennig gan y colledion swyddi.

Yn ail, newidiadau mewn incwm: er ei bod yn anodd asesu effaith y Credyd Cynhwysol arfaethedig, a newidiadau i Fudd-dal Tai a Threth Cyngor, mae'r rheiny sy'n hawlio rhyw fath o fudd-dal diweithdra, Credyd Treth Gwaith neu Blant, Budd-dal Tai, Lwfans Byw Anabl a Budd-dal Treth Cyngor, i gyd am weld newidiadau mawr i'w hincymau. Mae materion cydraddoldeb clir yma gan fod y rheiny sy'n derbyn budd-daliadau profion moddion, yn ôl diffiniad, ar incymau cymharol isel, gyda phobl anabl a'r rheiny dros 55 oed yn anghyfartal o ddibynnol ar fudd-daliadau.

Yn drydydd, newidiadau mewn gwasanaethau cyhoeddus o ganlyniad i wariant cyhoeddus llai. Ar y pwynt hwn nid yw'n glir sut y bydd gwasanaethau'n newid, ond yn achos pobl ar incymau isel, pobl anabl, pobl hŷn a menywod sy'n dibynnu fwyaf ar wasanaethau cyhoeddus, mae risg sylweddol y byddant yn cael eu heffeithio er gwaeth gan y newidiadau.

---

<sup>34</sup> Trysorlys EM (2010) Spending Review 2010. Cm 7942.

<sup>35</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Cyllideb Ddrafft 2011/12.

<sup>36</sup> PWC (2010) UK Economic Outlook November 2010, Tabl 2.1.1.

## Newidiadau demograffaid

Mae poblogaeth Cymru yn debygol o newid yn y blynyddoedd nesaf drwy gymysgedd o gynnydd mewn hirhoedledd a mudo.

Rhagwelir y bydd y nifer o bobl yng Nghymru yn croesi'r pwynt 3 miliwn yn 2009-2010 ac yn cynyddu i 3.2 miliwn erbyn 2023. Mae cyfuniad o ddisgwyliad bywyd hirach a llai o blant yn cael eu geni yn golygu y bydd y gyfradd o bobl dros 65 oed yn cynyddu dros 30%, felly erbyn 2023 bydd y grŵp oed hwn yn cyfrif am bron i chwarter o gyfanswm y boblogaeth.<sup>37</sup> Rhagwelir y bydd y cynnydd canrannol mwyaf ymysg y grwpiau oedran hynaf: erbyn 2031 amcangyfrifir y bydd 9% o boblogaeth Cymru rhwng 75-84 oed a 4.7% dros 85 oed.<sup>38</sup>

Mae poblogaeth Cymru sy'n heneiddio yn dystiolaeth o ffyrdd o fyw iachach a gwell gofal iechyd. Mae hefyd yn rhoi her i:

- ddarparu incwm digonol drwy bensiynau a ffynonellau eraill;
- llai o weithwyr yn yr economi i gefnogi pobl sydd ddim yn gweithio;
- darparu tai a gwasanaethau eraill sy'n addas i alluogi i bobl fyw'n annibynnol am gymaint â phosib;
- darparu gwasanaethau gofal priodol a chymorth i ofalwyr.

Dim ond tua traean o'r cynnydd a ragwelir ym mhoblogaeth Cymru rhwng 2008 a 2023 y gellir ei briodoli i 'newid naturiol' h.y. nifer uwch o enedigaethau na marwolaethau. Amcangyfrifir y bydd gweddill y twf yn dod o ganlyniad i ymfudo i Gymru.<sup>39</sup> Mae gan Gymru hanes hir o ddenu pobl o wledydd eraill. Heddiw, daw'r 'mewnlifiad' mwyaf o lawer o Loegr, gyda dim ond 7,800 o bobl yn symud i Gymru o dramor. Mae mewnfudiad yn cael ei gyfosod gan allfudiad, gyda'r mwyaf yn symud i weddill y DU, gyda 7,700 ar gyfartaledd yn gadael i leoedd tramor. Mae'r niferoedd mwyaf o fewnfudwyr ac allfudwyr rhwng 16-24 a 25-44 oed, er bod y cynnydd net mwyaf mewn poblogaeth o ymfudo ymysg pobl 45-64 oed.<sup>40</sup>

---

<sup>37</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Poblogaeth Cymru - Trosolwg Demograffig 2010.

<sup>38</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Poblogaeth Oed 50 a Throsodd yng Nghymru, 1991 i 2031, SB 31/2009

<sup>39</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Poblogaeth Cymru - Trosolwg Demograffig 2010.

<sup>40</sup> ibid

Gall mewnfudo, boed o Loegr neu o dramor, fod yn hynod o ddadleuol ac mae'n codi materion penodol yng Nghymru sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Tra bod y ffocws ar lefel y DU ar osod cap ar fewnfudiad, mae'r ffocws yng Nghymru wedi bod ar integreiddio a chydlyniad cymdeithasol, tra'n amddiffyn hawliau'r holl grwpiau o bobl. Bydd hyn yn parhau i fod yn her yn y dyfodol.

Mae'r newidiadau yn yr economi, poblogaeth a gwariant cyhoeddus a amlinellwyd uchod yn newidiadau mawr, ac ni ddylid amcangyfrif yn rhy isel eu potensial i drawsffurfio cymdeithas Cymru. Yng nghanol y newid, gall fod yn demtasiwn canolbwyntio ar yr heriau heb gydnabod y gallant effeithio ar grwpiau gwahanol o bobl mewn modd nad yw'n gyfartal nac yn deg.

Mae gweddill yr Adolygiad Cymru hwn yn darparu sylfaen tystiolaeth i helpu llywodraeth, busnesau, cyrff gwirfoddol ac eraill mewn cymdeithas i bwysu a mesur a dynodi lle dylid lleoli adnoddau cyfyng i fynd i'r afael â'r prif anghyfartaleddau a heriau.

## Rhan tri: Y dystiolaeth

Mae'r adran hon yn edrych ar dystiolaeth ar gydraddoldeb yng Nghymru heddiw ac yn defnyddio'r un dangosyddion ag yn 'How fair is Britain?'. Daw'r dangosyddion o'r Fframwaith Mesur Cyfartaleddau, sy'n dynodi gwahanol feysydd o fywyd sy'n effeithio ar gyfleoedd a deilliannau pobl. Y rhain yw:

- bywyd
- diogelwch cyfreithiol a chorfforol
- iechyd
- addysg a dysgu
- cyflogaeth
- safon byw
- gofal a chymorth
- grym a llais

Datblygwyd set o 40 o ddangosyddion i fesur cydraddoldeb yn y 'parthau' hyn, a cheir rhestr lawn yn Adolygiad Teirblwydd Prydain. Mae'r dangosyddion yn cynnwys cymysgedd o anghyfartaledd mewn **deilliannau**, h.y. yr hyn mae gwahanol grwpiau o bobl yng Nghymru yn ei gyflawni, a'r anghyfartaledd mewn **prosesau**, h.y. gwahaniaethau yn y ffordd y caiff pobl eu trin.

## Bylchau data

Mae gweddill yr adran hon yn cyflwyno'n systematig y dystiolaeth anghydraddoldeb yng Nghymru wedi ei mesur yn erbyn y 40 o ddangosyddion hyn. Yn anffodus, mae anhawster yn syth oherwydd bylchau yn y data sydd ar gael.

Mae tri math o fwllch. Y cyntaf yw er bod data ar gael i boblogaeth Cymru i gyd i'w gymharu â'r hyn a ddefnyddir ar gyfer Prydain, naill ai nid yw'r data ar gyfer grwpiau a ddiogelir yng Nghymru yn bodoli, neu mae'n annibynadwy oherwydd maint bychan y samplau. Fodd bynnag mae data ar gyfer grwpiau a ddiogelir yn bodoli i Brydain yn ei chyfanrwydd.

Mae'r ail fath o fwllch yn gysylltiedig â grwpiau ble nad oes dim data, neu fawr ddim data o gwbl, naill ai yng Nghymru neu ar draws Prydain, neu ble mae'r hyn sydd ar gael yn annibynadwy. Mae hyn yn berthnasol i gyfeiriadedd rhywiol a statws trawsryweddol, er enghraifft.

Mae hefyd yn berthnasol i is-grwpiau o bobl - er enghraifft nid oes fawr ddim data ar bobl gyda gwahanol fathau o nam, Sipsiwn Teithwyr neu geiswyr lloches a ffoaduriaid.

Mae'r math olaf o fwllch yn berthnasol i ddangosyddion ble nad oes unrhyw ddata o gwbl i unrhyw grŵp yng Nghymru, yn syml oherwydd na chaiff ei gasglu. Un enghraifft yw dangosydd blynyddoedd cynnar, ble nad oes data i Gymru ar ddatblygiad plant 5 oed, neu nodweddion pleidleiswyr neu wleidyddion.



Y dull a ddefnyddir wrth ddelio gyda'r bylchau hyn felly yw fel a ganlyn:

- Pan geir cyfeiriad at ddata am Gymru yn Adolygiad Teirblwydd i Brydain yr EHRC, mae'n cael ei ddyfynnu ac os oes angen, ei ddiweddarau.
- Pan na cheir cyfeiriad at ddata am Gymru yn Adolygiad Teirblwydd i Brydain yr EHRC ond ei fod ar gael o ffynonellau cyhoeddus eraill, mae'n cael ei gynnwys.
- Pan na cheir data penodol i Gymru, defnyddir data i Loegr a Chymru gyda'i gilydd neu i Brydain fel uned gyfan. Mae hyn yn arbennig yn achos dadansoddiad yn ôl ethnigedd gan fod poblogaeth lleiafrif ethnig Cymru yn weddol fychan.
- Pan nad oes data cadarn neu ganfyddiadau o bwys i Gymru neu unrhyw le arall ym Mhrydain, ni thrafodir y grŵp dan sylw o gwbl. Yn anffodus, mae hyn yn digwydd yn aml yn achos crefydd, a chyfeiriadedd rhywiol a statws trawsryweddol. Nid amlygir y bylchau yn y testun er mwyn osgoi ailadrodd.

At ei gilydd, mae dadansoddiad bob dangosydd yn edrych yn gyntaf ar safle cyffredinol Cymru, a'i gymharu gyda Lloegr neu Brydain. Os oes gwahaniaethau nodedig i'w gweld o fewn Cymru yna cânt eu hamlygu. Yna mae bob dangosydd yn cynnwys ystyriaeth, pan fo data cadarn ar gael, o grŵp sosio-economaidd, rhywedd, oed, anabledd a hil, ac yna crefydd, a chyfeiriadedd rhywiol a statws trawsryweddol.


# Bywyd

## Pwyntiau allweddol

- Mae gwahaniaethau sylweddol yn parhau rhwng y disgwyliadau bywyd gwahanol grwpiau yn y Gymru fodern, rhai ohonynt yn gysylltiedig ag effaith gronnsus yr anghyfartaleddau a brofir gan wahanol grwpiau.
- Mae gan bobl o grwpiau sosio-economaidd is ragolwg gwaelach a disgwyliad bywyd byrrach a graddfeydd marwolaeth gynamserol uwch na'r rhai o grwpiau uwch.
- Ar bob mesur, mae gan ddynion ragolwg gwaelach.
- Gall rhai grwpiau yn enwedig fod yn agored i fathau arbennig o risgiau. Babanod ac oedolion ifanc sydd fwyaf tebygol o unrhyw grŵp oed o fod yn ddiodefwr llofruddiaeth neu ddynladdiad.
- Gall pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol (LGB) a thrawsryweddol fod yn fwy tebygol na'r cyfartaledd i geisio cyflawni hunanladdiad nei i hunan-niweidio.

## Disgwyliad bywyd

Cyfnod disgwyliad bywyd ar enedigaeth (blynyddoedd) yn y DU, Lloegr, Cymru a'r Alban, 2000-07



Ffynhonnell: Tablau Bywyd Interim yr ONS

Yn y degawdau diwethaf, mae disgwyliad bywyd wedi codi'n fawr iawn yng Nghymru fel yng ngweddill y DU. Tra bod y cynnydd wedi bod yn gyffredinol, nid ydynt wedi bod yn gyson.

Mae disgwyliad bywyd yng Nghymru, ar gyfartaledd, yn is nag yn Lloegr - bwlch o flwyddyn i ddynion a menywod yn 2007. Arhosodd y bwlch rhwng Cymru a Lloegr yn gyson rhwng 2000 a 2007.<sup>41</sup>

Yng Nghymru, mae anghyfartaleddau daearyddol nodedig. Yn gyffredinol, roedd yr awdurdodau lleol oedd â'r disgwyliadau bywyd isaf yn 2007-09, i'r ddau ryw, yng nghymoedd De Cymru, gyda Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Tâf gyda'r graddfeydd isaf un. Gall pobl sy'n byw yn yr ardaloedd gyda'r disgwyliad bywyd uchaf ddisgwyl byw am 5.8 blynedd yn fwy na'r rhai gyda'r disgwyliad bywyd isaf os ydynt yn ddynion a 5 mwy os ydynt yn fenywod.

Ar draws Lloegr a Chymru gyfan, roedd disgwyliad bywyd i bob o gefndir disgil saith mlynedd yn llai na phobl o gefndir proffesiynol. Mae hyn yn wir am ddynion a menywod. Mae'r rhyngweithio rhwng rhywedd a grŵp sosio-economaidd yn golygu y gall menyw o ddsbarth cymdeithasol 1 (proffesiynol) fyw am 12.4 mlynedd yn fwy na dyn o ddsbarth cymdeithasol 6 (disgil).<sup>42</sup>

Ar gyfartaledd, mae menywod yng Nghymru, fel yn Lloegr, yn byw am bedair blynedd yn hirach na dynion - 81 oed o'i gymharu â 77 yn 2007. Y ffigyrau ar gyfer Lloegr yw 82 a 78 yn eu tro.

Mae'r dystiolaeth gyfyngedig sy'n bodoli am bobl anabl a grwpiau lleiafrifoedd ethnig i Brydain yn awgrymu fod ganddynt ddisgwyliad bywyd is na'r rhai nad ydynt yn anabl a grwpiau o bobl wyn.

---

<sup>41</sup> EHRC (2010) How fair is Britain? tudalen 75

<sup>42</sup> EHRC (2010) How fair is Britain? tudalen 76

## Salwch marwol

Clefydau cylchredol (sy'n cynnwys clefyd y galon a strôc) a chanser yw prif achosion marwolaeth yng Nghymru fel ym Mhrydain gyfan. Mae'r ddau wedi gostwng yn nodedig yn yr ugain mlynedd diwethaf ond mae eu cyffredinolrwydd yn amrywio rhwng grwpiau.<sup>43</sup>

Mae'r raddfa marwolaeth gynamserol o glefyd cylchredol yn debyg yng Nghymru a'r DU, ond o fewn Cymru mae'r graddfeydd llawer iawn uwch yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig na'r ardaloedd lleiaf difreintiedig, gyda'r gwahaniaethau yn arbennig o amlwg i ddynion.<sup>44</sup>

Mae graddfeydd marwolaeth gynamserol yng Nghymru yn sylweddol uwch i ddynion na menywod (yn ôl 64 fesul 100,000 i ddynion a 26 fesul 100,000 i fenywod).<sup>45</sup>

Roedd canser yn gyfrifol am 26,000 o farwolaethau yng Nghymru rhwng 2006 a 2008, gydag oddeutu chwarter o'r rhai a oedd yn marw o dan 65 oed. Mae'r raddfa marwolaeth gynamserol o ganser wedi gostwng dros yr 20 mlynedd diwethaf i'r ddau ryw, er bod y raddfa i fenywod wedi bod yn statig am y tair blynedd diwethaf ac mae ychydig yn uwch nag i ddynion. Mae graddfeydd uwch o farwolaeth gynamserol oherwydd canser ymhlith grwpiau sosio-economaidd is, yn enwedig ymhlith dynion, er bod y patrymau daearyddol yn aneglur.<sup>46</sup>

---

<sup>43</sup> Prif Swyddog Meddygol Cymru (2010) Adroddiad Blynyddol.

<sup>44</sup> Prif Swyddog Meddygol Cymru (2010) Adroddiad Blynyddol, p.74

<sup>45</sup> Prif Swyddog Meddygol Cymru (2010) Adroddiad Blynyddol, p.74

<sup>46</sup> Prif Swyddog Meddygol Cymru (2010) Adroddiad Blynyddol, p.76

## Hunanladdiad

Mae graddfeydd hunanladdiad wedi dod i lawr ar draws Cymru mewn blynyddoedd diweddar, ac yn awr maent yn agos i'r cyfartaledd DU, er eu bod serch hynny yn uwch nag yn Lloegr.

O fewn Cymru, mae gwahaniaethau amlwg yn ôl amddifadedd yr ardal. Mae'r raddfa hunanladdiad i ddynion yn y pumed ran o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru 40% yn uwch nag mewn ardaloedd o amddifadedd cyfartalog ac 80% yn uwch na'r pumed ran o ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae llai o wahaniaeth amlwg yn achos menywod.<sup>47</sup>

Yng Nghymru, mae graddfa hunanladdiad yn llawer uwch i ddynion nag i fenywod: 17.4 fesul 100,000 o ddynion a 4.3 fesul 100,000 o fenywod yn 2009.<sup>48</sup> Mae risg hunanladdiad yn llawer uwch ymhlith grwpiau oed iau na rhai hŷn, er bod graddfeydd wedi gostwng yn fawr mewn blynyddoedd diweddar, Serch hynny, roedd graddfa 2009 i ddynion oedran 15-44 ar 18.8 fesul 100,000, yn fwy na phedair gwaith y raddfa i fenywod o'r un oed (4.1 fesul 100,000).

Mae'r Adolygaid Teirblwydd i Brydain yn adrodd ar beth ymchwil i risgiau uwch hunanladdiad a cheisio cyflawni hunanladdiad ymhlith pobl LGB. Mae ymchwil yn awgrymu ei fod â chysylltiad uniongyrchol â chyfeiriadedd rhywiol. Adroddodd peth tystiolaeth o arolwg bychan o bobl trawsryweddol fod 34% o'r atebwyr wedi ceisio lladd eu hunain o leiaf unwaith.<sup>49</sup>

---

<sup>47</sup> Prif Swyddog Meddygol Cymru (2010) op. cit.

<sup>48</sup> Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (2011) Suicide Rates in the United Kingdom, 2000-2009, <http://www.statistics.gov.uk/pdfdir/sui0111.pdf> Cyrchwyd 07 02 2011

<sup>49</sup> EHRC (2010) How fair is Britain? tudalen 94

## Marwolaeth trwy ddamwain

Mae'r risg o farwolaeth trwy ddamwain wedi dod i lawr yn sylweddol ar draws Cymru yn yr ychydig ddegawdau diwethaf,<sup>50</sup> i 19.5 marwolaeth trwy ddamwain fesul 100,000 o bobl yn 2008. O fewn Cymru, mae'r raddfa marwolaeth trwy ddamwain uchaf yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.<sup>51</sup>

Mae graddfa marwolaeth trwy ddamwain oddeutu ddwy waith cyn uchod ymhlith dynion ag yw ymhlith menywod (tua 30 o'i gymharu ag oddeutu 15 fesul 100,000).

Mae'r Adolygaid Teirblwydd i Brydain yn dod i gasgliad fod y risgiau marwolaeth trwy ddamwain uchaf i'r rheiny sydd o oedran 75 a drosodd, ar oddeutu 1,070 fesul 100,000 o ddynion a menywod.<sup>52</sup>

## Dynladdiad

Yn 2008/09, bu 34 dynladdiad yng Nghymru, graddfa o 11.4 fesul miliwn o'r boblogaeth. Mae'r nifer yn amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, o 22 yn 2005/06 i 43 yn 2007/08. Mae fodd bynnag yn agos iawn at y cyfartaledd yn Lloegr.<sup>53</sup>

Yn Lloegr a Chymru gyfan, roedd 71% o ddiodefwyr dynladdiad yn ddynion<sup>54</sup>. Fodd bynnag, mae menywod yn fwy tebygol na dynion i gael eu lladd gan bartneriaid, cynbartneriaid, neu aelodau teulu: yn 2008/09, roedd trais gan bartner (yn cynnwys gan gynbartneriaid) yn cyfrif am 53% o ddynladdiadau menywod a 7% o ddynladdiadau dynion yn Lloegr a Chymru.

Mae plant o dan 1 oed yn fwy tebygol o farw o ganlyniad i ddynladdiad nag unrhyw grŵp oed arall yn Lloegr a Chymru: roedd un plentyn dan 16 oed yn marw o ganlyniad i greulondeb neu drais bob wythnos yn Lloegr a Chymru yn 2008/09 - dwy ran o dair ohonynt o dan bump oed. Fodd bynnag, yn 2008/09, roedd y raddfa wedi gostwng i hanner yr hyn oedd ddegawd ynghynt (graddfa o oddeutu 30 o ddynladdiadau fesul miliwn). Y grŵp oed gyda'r risg uchaf nesaf yw pobl 15-29 oed, ble mae'r risg yn 20 fesul miliwn.

---

<sup>50</sup> EHRC (2010) How fair is Britain? tudalen 97

<sup>51</sup> Prif Swyddog Meddygol Cymru (2010) op. cit.

<sup>52</sup> EHRC (2010) How fair is Britain? tudalen 94

<sup>53</sup> Bwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref, Homicides, Firearm Offences and Intimate Violence 2008/09 Supplementary Volume 2 to Crime in England and Wales 2008/09

<sup>54</sup> EHRC (2010) How fair is Britain? tudalen 103

Roedd pobl lleiafrifoedd ethnig yn ddiodefwr yr oddeutu chwarter o'r dynladdiadau a gofnodwyd (ble gwyddys hunaniaeth ethnig y diodefwr) yn Lloegr a Chymru rhwng 2006/07 a 2008/09: roedd dipyn dros hanner y diodefwr lleiafrif ethnig hyn y ddu. Mae hyn yn awgrymu risg uwch o ddynladdiad i bobl o leiafrifoedd ethnig gan eu bod yn gwneud llai na 10% o'r boblogaeth.

Cyhuddwyd 70 o ddynladdiadau a ddigwyddodd yn Lloegr a Chymru rhwng 2007/08 a 2009/10 o ganlyniad i droseddau a waethygir gan hil neu grefydd, transffobig neu homoffobig a throseddau casineb yn ymwneud ag anabledd.

## **Marwolaethau mewn sefydliadau**

Yn Lloegr a Chymru yn 2008/09, bu 92 o farwolaethau yn ystod neu'n dilyn cyswllt â'r heddlu, o'i gymharu â'r brig o 120 yn 2005/06. Dynion yw'r mwyafrif o farwolaethau yn ystod neu'n dilyn cyswllt â'r heddlu: roedd 74 o 92 o farwolaethau o'r fath yn 2008/09 yn ddynion.

Nid yw'n ymddangos bod y marwolaethau'n fwy dwys ymysg unrhyw grwpiau oed penodol: roedd 12% o farwolaethau'n dilyn cyswllt â'r heddlu yn unigolion o dan 18 oed a chyfran debyg yn unigolion dros 50 oed.

Roedd gan ychydig dros hanner y rheiny a fu farw yn dilyn cyswllt â'r heddlu ag arwyddion blaenorol o gyflyrau iechyd meddwl, cyfran uwch na'r rheiny â chyflyrau iechyd meddwl yn y boblogaeth gyffredinol. Mae tua 10% o'r bobl sy'n marw yn ddu, o'i gymharu ag ond 2% o'r boblogaeth gyffredinol.

# Diogelwch cyfreithiol a chorfforol

## Pwyntiau allweddol

- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn teimlo bod y system gyfiawnder droseddol yn deg. Fodd bynnag mae rhai grwpiau â lefelau hyder is yn yr heddlu ac yn eu bodlonrwydd â'r heddlu, yn enwedig pobl LGBT a phobl o leiafrifoedd ethnig.
- Ar draws Lloegr a Chymru, mae pobl o leiafrifoedd ethnig, a phobl ddu yn arbennig, yn llawer mwy tebygol o gael eu stopio a'u chwilio gan yr heddlu na phobl wyn.
- Mae trosedd dreisgar wedi gostwng yn sylweddol dros y pymtheg mlynedd diwethaf er bod pobl ddu a dynion du yn benodol, â'r risg uchaf o ddynladdiad.
- Mae'r risg o erledigaeth yn wahanol rhwng dynion a menywod. Yn gyffredinol mae dynion ifanc mewn risg uwch o fod yn ddiodefwr trosedd dreisgar na dynion hŷn neu fenywod. Mae menywod yn llawer mwy tebygol na dynion i fod yn ddiodefwr cam-drin domestig gan bartner neu aelod teulu, ac, ynghyd â phlant, yn llawer mwy tebygol o gael eu treisio.
- Nid oes gan Gymru'r cynhwysedd carchar i bawb sy'n cael eu dedfrydu i garchar. Nid oes ond 50 o leoedd i droseddwr ifanc a dim lle o gwbl i garcharorion benywaidd. Effaith hyn yw fod pobl yn cael eu lleoli mewn carchardai sydd ymhell i ffwrdd oddi wrth deulu a chyfeillion.

## Triniaeth gyfartal gan y system gyfiawnder

Cynahliodd heddluoedd Cymru fwy na 42,000 o achosion stopio a chwilio yn 2008/09, gyda 4,900 o arestiadau'n dilyn hynny. Roedd y nifer o achosion stopio a chwilio fesul 100,000 o bobl gan Heddluoedd De Cymru, Gogledd Cymru a Gwent yn gyfrannol is na chyfartaledd Lloegr a Chymru tra bod y rhai gan Heddlu Dyfed-Powys yn y grŵp cyfartalog.<sup>55</sup>

---

<sup>55</sup> Povey, D., ed. (2010) Police Powers and Procedures, England and Wales 2008/09, Bwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref 06/10. Ar gael yn: <http://rds.homeoffice.gov.uk/rds/pdfs10/hosb0610.pdf>



Yn gyffredinol mae cyfran ychydig yn is o bobl yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr yn credu bod y system gyfiawnder droseddol yn deg (56% o gymharu â 59%).<sup>56</sup>

Mae pobl ifanc â salwch tymor-hir cyfyngus neu bobl ifanc anabl yn llawer llai tebygol na'r rheiny sydd heb y fath gyflyrau o gredu bod y system gyfiawnder droseddol yn deg, neu ei bod yn cwrdd ag anghenion dioddefwyr.<sup>57</sup>

Ar draws Lloegr a Chymru gyfan, mae cyfraddau stopio a chwilio yn achos pobl ddu yn llawer uwch nag i grwpiau eraill (135 digwyddiad fesul 100,000 o'r boblogaeth, o'i gymharu â 40 fesul 100,000 ar gyfer pobl Asiaidd ac 20 fesul 100,000 ar gyfer gweddill y boblogaeth).<sup>58</sup> Mae grwpiau ethnig lleiafrifol yn llawer llai tebygol na phobl wyn o gredu y bydd eu cwynion am yr heddlu yn cael eu cymryd o ddifrif, ac yn fwy tebygol o boeni am aflonyddiad gan yr heddlu.<sup>59</sup> Canfu astudiaeth raddfa fach bod gan Sipsiwn – Teithwyr hyder isel o ran yr Heddlu ac o'r herwydd yn amharod o adrodd digwyddiadau i'r heddlu. Canfu'r un ymchwil bod ceiswyr lloches yn amharod o adrodd ynghylch troseddau i'r heddlu oherwydd eu bod ofn yr effaith posibl ar eu cais am loches.<sup>60</sup>

Mae'r data arolwg yn awgrymu bod pobl LGB yn fwy tebygol o boeni am a phrofi gwahaniaethu gan yr heddlu, boed nhw'n adrodd ynghylch trosedd neu dan amheuaeth o gyflawni un<sup>61</sup>. Yng Nghymru, mae cyfran ychydig yn uwch o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol wedi adrodd ynglŷn â digwyddiad i'r heddlu na'r boblogaeth ar y cyfan, ac roedd lefel cymharol uchel o anfonlonrwydd â'r canlyniad.<sup>62</sup> Mae astudiaeth graddfa fach o agweddau pobl drawsryweddol yn awgrymu tra bod y mwyafrif yn disgwyl triniaeth deg, bod tua 1 o bob 5 yn teimlo eu bod wedi'u trin yn amhriodol wrth gysylltu â'r heddlu.<sup>63</sup>

---

<sup>56</sup> Swyddfa Gartref (2010) Crime in England and Wales 2008/09 Tabl 7.16

<sup>57</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 133

<sup>58</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 135

<sup>59</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 138

<sup>60</sup> Y Comisiwn Cymru (2010) Mwy nag yatadegyn

<sup>61</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 138

<sup>62</sup> Williams, M. and Robinson, A.L. (2007) Counted In! The All Wales Survey of Lesbian, Gay and Bisexual People. Llundain: Stonewall

<sup>63</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 138

## Troseddau yn erbyn y person – trosedd dreisgar, cam-drin domestig ac ymosodiad rhywiol

Yn gyffredinol, mae trosedd dreisgar yn lloegr a chymru wedi haneru rhwng 1995 a 2010.

Ar draws Lloegr a Chymru gyfan, mae dynion ifanc mewn risg uchel o fod yn ddioddefwyr trosedd dreisgar. Yn 2009/10, roedd 13% o ddynion 16-24 oed yn ddioddefwyr trosedd dreisgar, o'i gymharu â bron mwy na 4% o'r holl ddynion a llai na 3% o'r holl fenywod.<sup>64</sup>

Tra bod grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol na phobl wyn o fod yn ddioddefwyr trosedd dreisgar, nid ethnigedd ynddi'i hun sy'n esbonio'r gwahaniaeth. Yn hytrach, cyfuniad yw o'r gwahanol oedrannau a phroffiliau sosio-economaidd ymhlith pobl y lleiafrifoedd ethnig o'i gymharu â'r boblogaeth wyn.<sup>65</sup>

Bu 69 digwyddiad o gam-drin domestig fesul 10,000 o oedolion yng Nghymru yn 2007/08 (yn cyfateb i bron i 17,000 o ddigwyddiadau). Mae un o bob pedair o fenywod yn Lloegr a Chymru wedi profi rhyw ffurf o gamdriniaeth ddomestig ers cyrraedd 16 oed. Mae tri-chwarter o'r troseddau cam-drin domestig yn droseddau ailadroddus.

Mae menywod yng Nghymru yn ddwywaith mwy tebygol na dynion o fod yn ddioddefwyr trais rhywiol, neu drais nad yw'n rhywiol gan eu partner neu deulu.<sup>66</sup>

Rhwng 2006 a 2010, bu i Wasanaeth Erlyn y Goron erlyn 796 o achosion treisio'n rhywiol, â 57% ohonynt yn arwain at euogfarn.<sup>67</sup> Nid yw'r nifer o erlyniadau yn cadw i fyny â'r nifer o ddigwyddiadau o dreisio rhywiol sy'n cael eu hadrodd i'r heddlu, tra bod y raddfa euogfarnu yn 'ystyfnig o isel'.<sup>68</sup>

---

<sup>64</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 201

<sup>65</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 197

<sup>66</sup> Finney, A. (2006) Domestic violence, sexual assault and stalking: findings from the 2004/05 British Crime Survey. Swyddfa Gartref: London. Tabl A.9

<sup>67</sup> Adroddiad newyddion BBC, Medi 2010, <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-11199939>, cyrchwyd 14<sup>eg</sup> Chwefror 2011

<sup>68</sup> EHRC (2010) Crynodeb Adolygiad Teirblwydd tud 14

Menywod a phlant yw'r mwyaf tebygol o lawer o fod yn ddiodefwr treisio rhywiol: cafodd 90% o droseddau eu cyflawni yn erbyn menywod tra bod mwy na chwarter o'r achosion treisio'n rhywiol a gafodd eu hadrodd wedi'u cyflawni yn erbyn plant. Roedd mwy na hanner yr achosion o dreisio gwrywaidd yr adroddwyd arnynt wedi digwydd i blant o dan 16 oed.<sup>69</sup>

## Trais wedi'i dargedu

Mae digwyddiadau sy'n targedu pobl oherwydd pwy ydynt (e.e. troseddau casineb) yn cael eu tan-adrodd, sy'n golygu nad yw llawer o ddiodefwr yn gallu cael mynediad i'r cymorth maent ei angen, neu i sicrhau cyfiawnder. Yn 2007/08, bu 4,578 o erlyniadau am droseddau casineb yng Nghymru, o'r rhain roedd 568 yn droseddau wedi'u cymell gan hil a chrefydd, 68 am droseddau homoffobig a thransffobig a 21 am droseddau casineb yn erbyn pobl anabl.<sup>70</sup> Yn Lloegr a Chymru, mae'r nifer o achosion o drosedd ar sail hil a chrefydd sy'n cael eu hadrodd i'r heddlu wedi gostwng ychydig ers 2006/07.

Y gymhareb euogfarnu ar gyfer troseddau casineb yng Nghymru oedd 72%, sy'n is na'r gymhareb ar gyfer yr holl droseddau ditadwy ar 80%.<sup>71</sup> Cynyddodd y gyfradd euogfarnu ar gyfer trosedd ar sail hil a chrefydd a homoffobig a thransffobig yn Lloegr a Chymru ychydig rhwng 2006/07 a 2008/09.<sup>72</sup>

Mae'r mwyafrif o ddigwyddiadau sy'n cael eu cofnodi gan yr heddlu yn cynnwys aflonyddu, ond y mwyafrif o'r achosion sy'n cael eu herlyn yw troseddau yn erbyn y person. Mae digwyddiadau sy'n targedu gwahanol grwpiau'n cymryd ffurfiau amrywiol: er enghraifft, mae trosedd ar sail crefydd yn effeithio ar sefydliadau cymunedol yn ogystal ag unigolion; troseddau casineb sy'n targedu pobl LGB yn gallu cynnwys ymosodiad rhywiol; a throseddau casineb cysylltiedig ag anabledd yn aml yn targedu eiddo'r unigolion.

---

<sup>69</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 209

<sup>70</sup> Gwasanaeth Erlyn y Goron (XXX) Hate Crime Report 2007-08, p. 48 Ar gael yn: [http://www.cps.gov.uk/publications/docs/CPS\\_hate\\_crime\\_report\\_2008.pdf](http://www.cps.gov.uk/publications/docs/CPS_hate_crime_report_2008.pdf)

<sup>71</sup> Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2010 Criminal Statistics: England and Wales 2009 Statistics bulletin. Ar gael yn: <http://www.justice.gov.uk/criminal-statistics-annual-2009.pdf>

<sup>72</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 151

## Niferoedd ac amodau mewn carchardai

Dim ond pedwar carchar sydd yng Nghymru (i gyd yn y de), a oedd yn Awst 2010 yn dal 2,805 o garcharorion.<sup>73</sup> Nid oes llety o gwbl ar gyfer carcharorion benywaidd, ac mae lleoedd i 50 yn unig o droseddwyr ifanc ac un Sefydliad Troseddwyr Ifanc.<sup>74</sup> O ganlyniad, mae tua phedwar o bob deg o garcharorion gwrywaidd a'r holl garcharorion benywaidd o Gymru yn treulio eu dedfrydau mewn carchardai yn Lloegr, i ffwrdd oddi wrth eu teuluoedd.<sup>75</sup>

Yn Lloegr a Chymru, mae'r nifer o garcharorion benywaidd wedi dyblu ers 1995: mae tua 5% o garcharorion nawr yn ferched. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod merched mewn carchar yn fwy tebygol o fod wedi profi cam-drin domestig na merched yn y boblogaeth yn ei chyfanrwydd.<sup>76</sup>

Ar gyfartaledd, mae pum gwaith mwy o bobl ddu na gwyn yn cael eu carcharu. Mae un o bob pedwar unigolyn sydd mewn carchar o gefndir lleiafrif ethnig.<sup>77</sup>

---

<sup>73</sup> Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2010) Population in Custody August 2010 Tabl 4. Ar gael yn: <http://www.justice.gov.uk/publications/populationincustody.htm>

<sup>74</sup> Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin (2007) Welsh Prisoners in the Prison Estate. Third Report of the Session 2006/07. HC74

<sup>75</sup> *ibid*

<sup>76</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 167

<sup>77</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 172

## Ofn trosedd

Yng Nghymru, adroddodd tua 1 o bob 10 o unigolion eu bod yn poeni am drosedd dreisgar, trosedd ceir a byrgleriaeth.<sup>78</sup> Yn 2004/05, roedd llai o bobl yng Nghymru yn teimlo'n anniogel iawn tra'n cerdded ar ben eu hunain yn y nos nag yr oedd yn Lloegr.

Yn Lloegr a Chymru, mae pobl o grwpiau sosio-economaidd is yn fwy tebygol o boeni am drosedd dreisgar na'r cyfartaledd.<sup>79</sup> Mae mwy o fenywod yn teimlo'n anniogel na dynion (8% o fenywod 16 – 59 oed yn teimlo'n anniogel o'i gymharu â 1% o ddynion), ac mae pobl hŷn yn teimlo'n fwy anniogel na phobl iau (20% o fenywod hŷn yn teimlo'n anniogel).<sup>80</sup>

Ar draws Lloegr a Chymru yn eu cyfanrwydd, mae pobl anabl yn fwy tebygol o fod yn pryderu am drosedd dreisgar na phobl nad ydynt yn anabl (16% o'i gymharu â 12%). Maent hefyd yn fwy tebygol o deimlo'n anniogel yn y nos (47% o'i gymharu â 28%).

---

<sup>78</sup> Ystadegau Cymru Tabl 007348 Ar gael yn: <http://www.YstadegauCymru.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx>

<sup>79</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 240

<sup>80</sup> Regional Trends (2004/05) Tabl 9.11 – ffigyrau diweddaraf ar gael

# Iechyd

## Pwyntiau allweddol

- Mae lefelau o salwch tymor hir ac anabledd yn uwch yng Nghymru nac yng ngweddill Prydain.
- Mae'r lefel yn codi gydag oed, i bwynt ble mae dros hanner y bobl sydd dros 55 oed mewn rhai ardaloedd o Gymru yn anabl.
- Mae lefelau iechyd meddwl gwael yn llawer uwch ymysg grwpiau sosio-economaidd is, a menywod yn fwy tebygol o brofi iechyd meddwl gwael na dynion.
- Mae patrymau o ymddygiad iach yn amrywio o grŵp i grŵp a mesur i fesur. Er enghraifft, mae pobl o grwpiau sosio-economaidd is yn fwy tebygol o ysmegu ond yn llai tebygol o fynd tu draw i'r maint o alcohol a argymhellir.
- Mae'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn teimlo bod y gwasanaeth iechyd yn eu trin ag urddas a pharch. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o Loegr sy'n awgrymu bod LGB ac unigolion trawsrywedd â disgwyliadau is o driniaeth o'r fath na gweddill y boblogaeth.

## Salwch tymor hir cyfyngus, anabledd ac iechyd gwael

### Salwch tymor hir ac anabledd

Mae gan Gymru gyfradd uwch o oedolion â salwch tymor hir cyfyngus a phobl anabl na'r Alban neu unrhyw ranbarth o Loegr, yn ôl Cyfrifiad 2001. Mae tua un o bob pump o'r boblogaeth mewn oed gwaith yn anabl yn ôl diffiniad y ddeddfwriaeth cydraddoldebau yng Nghymru yn 2007, tri chwarter ohonynt gydag anabledd cyfyngus ar waith.<sup>81</sup> Yng Nghymru, y gyfran o oedolion oed gwaith a oedd yn anabl fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd oedd 27.4% ym Mlaenau Gwent, sydd ddwy waith uwch nac yn Sir y Fflint.

Mae cysylltiad agos rhwng grŵp sosio-economaidd a salwch tymor hir cyfyngus neu anabledd.

---

<sup>81</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Cyffredinrwydd Anabledd yng Nghymru, 2004-2007. SB 76/2008.

Yn ôl Arolwg Iechyd Cymru 2009, roedd pobl a oedd yn ddi-waith tymor hir neu erioed wedi gweithio bron i ddwy waith fwy tebygol o adrodd fod ganddynt salwch tymor hir cyfyngus na'r rheiny â galwedigaethau proffesiynol a rheoli (43% o gymharu â 23%).<sup>82</sup>

Yn fras, mae gan ddynion a menywod lefelau tebyg o anabledd. Mae'r gyfran o bobl anabl yn cynyddu gydag oed, gydad oddeutu traean o bobl rhwng 55 oed ac oedran ymddeol yn adrodd eu bod yn unigolyn anabl. Dros 65 oed, mae mwy na hanner y dynion a menywod yn dweud fod ganddynt salwch tymor hir cyfyngus.<sup>83</sup> Mae'r anghyfartaleddau cyfun oed ac ardal yn amlwg. Ymysg pobl dros 55 oed, roedd hanner neu fwy yn byw ym Mlaenau Gwent, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr yn anabl.

Roedd gan y rhan fwyaf o grwpiau ethnig lefel is o salwch tymor hir cyfyngus na'r grŵp Prydeinig gwyn. Mae oedran cyfartalog iau'r grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn debygol o fod yn ffactor yn hyn o beth, gan fod y gyfran o bobl sy'n anabl neu sydd â salwch tymor hir cyfyngus yn cynyddu ag oedran.<sup>84</sup>

## Iechyd gwael

Yng Nghymru, adroddodd 6% o ddynion a menywod ynglŷn ag iechyd gwael yn Arolwg Iechyd Cymru 2009.<sup>85</sup> Roedd pobl mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn fwy tebygol na phobl mewn ardaloedd eraill o adrodd am amrediad o brif afiechydon, gan gynnwys pwysedd gwaed uchel, diabetes a phroblemau iechyd meddwl.<sup>86</sup>

Mae'r gyfran o oedolion sy'n adrodd ynglŷn ag iechyd gwael yn cynyddu gydag oedran, o 1% o unigolion 16-24 oed i 13% o unigolion sydd dros 75.<sup>87</sup> Mae pobl anabl bron i ddeg gwaith fwy tebygol o adrodd iechyd gwael na phobl nad ydynt yn anabl.

---

<sup>82</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Arolwg Iechyd Cymru 2009 Tabl 3.9

<sup>83</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Arolwg Iechyd Cymru 2009, Tabl 3.7

<sup>84</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) Ffocws Ystadegol ar Ethnigedd, SB 53/2004

<sup>85</sup> The Poverty Site, <http://www.poverty.org.uk/61/index.shtml> cyrchwyd 10fed Ionawr 2011

<sup>86</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Arolwg Iechyd Cymru, 2009

<sup>87</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Arolwg Iechyd Cymru, 2009

Pobl wyn yng Nghymru sydd â'r lefelau uchaf o iechyd gwael a hunan-adroddir. Ymysg grwpiau heb fod yn wyn, roedd iechyd gwael uchaf ymysg grwpiau Du a Du Prydeinig, Pacistanaid, Eraill Cymysg a Du Affricanaidd, (i gyd dros 8%) a'r isaf ymysg pobl Tsieineaidd a grwpiau ethnig Eraill (ar 4%).<sup>88</sup>

## Iechyd meddwl gwael

Mae Arolwg Iechyd Cymru 2009 yn dangos cysylltiad agos rhwng iechyd meddwl gwael a grŵp sosio-economaidd. Mae pobl nad ydynt erioed wedi gweithio neu'n ddi-waith tymor hir yn bedair gwaith mwy tebygol o adrodd eu bod yn cael triniaeth ar gyfer iselder, pryder neu unrhyw salwch meddwl arall na'r rheiny â galwedigaethau rheoli neu broffesiynol (27% o gymharu â 7%) ac mae ganddynt hefyd sgoriau SF-36 is.<sup>89</sup> Mae'r bobl yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig hefyd â sgoriau SF-36 is na'r rheiny yn y manau mwyaf breintiedig.<sup>90</sup>

Mae'r arolwg hefyd yn dangos bod menywod yn gyson â sgoriau SF-36 is na dynion (mae sgôr is yn dangos problemau posib). Nid oes unrhyw amrywiaeth sylweddol mewn sgôr SF-36 yn ôl oedran<sup>91</sup> er bod mwy o amrywiaeth rhwng grwpiau oed sy'n adrodd eu bod yn cael triniaeth ar gyfer salwch meddwl.<sup>92</sup>

Mae anabledd a salwch tymor-hir hefyd yn gysylltiedig ag iechyd meddwl gwael: mae 52% o bobl â salwch tymor hir cyfyngus/anabledd â sgôr isel sy'n dangos iechyd meddwl gwael, o'i gymharu â 24% o'r rheiny sydd heb salwch tymor hir cyfyngus /anabledd.<sup>93</sup>

Mae tystiolaeth o Loegr yn awgrymu bod dynion Pacistanaid a Bangladeshaidd yn llawer mwy tebygol o gael iechyd meddwl gwael na phobl eraill. Ond mae'r canfyddiad hwn yn cael ei herio. Mae rhai yn dadlau y gellir esbonio canfyddiadau o'r fath gan wahaniaethau diwylliannol ac ieithyddol.<sup>94</sup>

---

<sup>88</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) Ffocws Ystadegol ar Ethnigedd, SB 53/2004

<sup>89</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Arolwg Iechyd Cymru, 2009 Tabl 3.9

<sup>90</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Arolwg Iechyd Cymru, 2009 Tabl 3.10

<sup>91</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Arolwg Iechyd Cymru, 2009 Tabl 3.2

<sup>92</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Arolwg Iechyd Cymru, 2009 Tabl 3.5

<sup>93</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 276

<sup>94</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 276



## Byw bywyd iach

Mae darlun cymysg ynglŷn ag i ba raddau mae gan gwahanol grwpiau yng Nghymru ffordd o fyw iach.

Mae'r gyfran o bobl sy'n yfed mwy na'r hyn a argymhellir o alcohol fesul wythnos yn uwch ymysg dosbarthiadau rheoli na dosbarthiadau gweithiol, ac mae'r isaf un ymysg y rheiny sydd erioed wedi gweithio neu'n ddi-waith tymor hir. Mae dros hanner y dynion a thraean o fenywod yng Nghymru yn yfed mwy na'r canllawiau. Mae'r gyfran sy'n mynd uwchlaw'r meintiau canllaw uchaf ymysg unigolion 35-44 oed ac isaf ymysg y rhai sydd dros 75 oed.<sup>95</sup>

Mae ysmegu'n fwy cyffredin ymysg y rheiny sydd ddim yn gweithio (44%) na'r rheiny sydd mewn galwedigaethau rheoli (15%). Mae ysmegu'n fwy cyffredin ymysg dynion (26%) na menywod (22%), ac yn fwyaf cyffredin ymysg unigolion 25-34 oed (34%) a lleiaf cyffredin ymysg unigolion dros 75 oed (9%).<sup>96</sup>

Mae traean o bobl yng Nghymru yn bwyta o leiaf y pum darn o ffrwyth a llysiau'r dydd a argymhellir. Nid oes llawer o wahaniaeth mewn arferion bwyta'n iach yn ôl oed neu rywedd.<sup>97</sup>

Mae'r Adolygaid Teirblwydd i Brydain yn awgrymu bod patrymau'n amrywio'n fawr iawn ar draws y grwpiau ac yn ôl mesuriadau gwahanol yn Lloegr a Chymru. Mae pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn gyffredinol yn llai tebygol o yfed a mwy tebygol o fwyta'n iach, ond roeddynt yn llai tebygol o wneud y maint o ymarfer corff a argymhellir. Roedd lefelau ysmegu'n uchel ymysg rhai grwpiau, yn enwedig dynion Pacistanaid.

Nid yw pobl â salwch tymor hir cyfyngus a phobl anabl yn fwy nac yn llai tebygol o ysmegu na phobl eraill, ond yn llai tebygol o yfed mwy na'r swm a argymhellir.

---

<sup>95</sup> Arolwg Iechyd Cymru 2009, Tablau 4.5 a 4.9

<sup>96</sup> Arolwg Iechyd Cymru 2009, Tablau 4.9 a 4.1

<sup>97</sup> Arolwg Iechyd Cymru 2009, Tablau 4.6

## Urddas a pharch mewn triniaeth iechyd

Mae arolygon yn dangos bod y mwyafrif helaeth o bobl yn teimlo eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch mewn gofal iechyd. Roedd mwy na 90% o bobl yng Nghymru yn teimlo bod staff wedi'u trin nhw gydag urddas a pharch ym meddygfa eu Meddyg Teulu (93%) neu yn yr ysbyty (94%). Fodd bynnag roedd cyfran fechan ymhob sefyllfa (4%) yn teimlo i'r gwrthwyneb.<sup>98</sup> Roedd preifatrwydd ac urddas yn cyfrif am gyfran fechan iawn (1%) o'r cwynion am y GIG yn 2009/10 gydag 'agwedd staff' yn cyfrif am 10% o gwynion.<sup>99</sup>

Ni chanfu Arolwg Byw yng Nghymru 2008 unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng dynion a menywod yn dweud eu bod wedi eu trin gydag urddas a pharch pan yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth iechyd neu'n cymryd rhan ynddo.<sup>100</sup>

Roedd 1 mewn 7 o bobl trawsrywedd a ymatebodd i arolwg yn teimlo eu bod wedi'u trin yn negyddol gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd oherwydd eu statws trawsrywedd.<sup>101</sup> Awgrymir hefyd mai dim ond ar rai adegau neu bron byth y bydd pobl hoyw a lesbiaidd yn debygol o ddweud iddynt gael eu trin gyda pharch yn y gwasanaethau iechyd.

---

<sup>98</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, Byw yng Nghymru, 2007

<sup>99</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Cwynion i'r GIG yng Nghymru, 2009-10. SDR 158/2010

<sup>100</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, Byw yng Nghymru, 2008

<sup>101</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? Tudalen 295

# Addysg

## Pwyntiau allweddol

- Mae gwahaniaethau sylweddol mewn cyfranogiad a llwyddiant mewn addysg yn ôl incwm drwy gydol bywyd unigolyn, ac i raddau llai yn ôl rhywedd, ethnigedd ac anabledd.
- Mae'n bosib gweld y gwahaniaethau hyn o oed ifanc iawn. Mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng bechgyn a merched wedi agor erbyn 5 oed. Erbyn yr un oed, mae bwlch rhwng disgyblion tlawd a'r cyfartaledd.
- Mae'r gwahaniaethau yn parhau drwy wahanol grwpiau oedran. Mae disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o gael eu gwahardd o'r ysgol, fel y rhai sydd yn SEN a rhai plant lleiafrif ethnig. Mae unigolion 16 oed sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn llawer llai tebygol o gael pum TGAU gradd A\*-C na'r rheiny sydd ddim yn gymwys.
- O'i gymharu â gweddill Prydain, mae gan Gymru gyfraddau cyrhaeddiad sydd ychydig yn is ar 16 oed, a chyfraddau llawer is o lythrennedd ymysg oedolion. O ystyried hyn, mae'n nodedig iawn bod lefelau o gyfranogiad oedolion mewn addysg yn is yng Nghymru nac yng ngweddill Prydain, a'r isaf ymysg rheiny o gefndiroedd llafurio a swyddi ailadroddus, a'r rheiny sydd erioed wedi gweithio.
- Mae amrywiaethau rhwng grwpiau ethnig yn llawer mwy aneglur, er ei fod yn glir bod rhai grwpiau yn perfformio'n llawer gwaeth megis pobl Pacistanaid a Bangladeshaid. Fodd bynnag, nid yr achos yw fod grwpiau nad ydynt yn wyn bob amser yn cael canlyniadau gwaeth na'r mwyafrif gwyn.
- Mae pobl iau yn fwy tebygol o gael cymwysterau na phobl hŷn ac mae'r lefel o gyfranogiad mewn addysg oedolion yn gostwng yn sylweddol ag oed.

## Lefel datblygiad yn 5 oed

Mae'r Adolygaid Teirblwydd i Brydain <sup>102</sup> yn tynnu sylw at yr amrywiaeth sylweddol yn lefel datblygiad plant 5 oed.

---

<sup>102</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 304

Mae cyfran lai o blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni lefel "dda" o ddatblygiad na phlant nad ydynt yn gymwys (35% o gymharu â 55%). Erbyn pump oed, mae datblygiad merched yn Lloegr yn fwy datblygedig na bechgyn mewn 11 o'r 13 o raddfeydd asesiad ar y proffil Cyfnod Sylfaen Blynyddoedd Cynnar mewn datblygiad cymdeithasol ac emosiynol yn ogystal â meysydd gwybyddol. Bu i gyfran uwch o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig Asiaidd, Indiaidd, Gwyddelig, Gwyn Cymysg a Gwyn Prydeinig gyflawni lefel dda o ddatblygiad o'i gymharu â disgyblion o grwpiau ethnig Du a Phacistanaid.

Mae'r data agosaf sydd ar gael ar gyfer Cymru yn ymwneud â Chyfnod Allweddol 1, ar gyfer disgyblion 7 oed. Mae'n dangos bod merched yn fwy tebygol o gyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn asesiadau athrawon na bechgyn, a bod disgyblion Tsieineaidd a gwyn yn fwy tebygol o wneud hyn na disgyblion du neu Asiaidd. Mae'r gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion ar y gofrestr SEN (Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig) a disgyblion sydd ddim ar y gofrestr yn drawiadol. Mae 81% o ddisgyblion sydd ddim ar y gofrestr o'i gymharu â 46% o ddisgyblion sydd ar y gofrestr SEN yn cyrraedd Lefel 2 mewn asesiadau athrawon.<sup>103</sup>

## Gwaharddiad parhaol o'r ysgol

Er ei fod yn brin, mae gwaharddiadau o'r ysgol yn cael effaith negyddol iawn ar ddatblygiad addysgol. Fel cyfran o'r holl blant ysgol, roedd y gyfradd gwaharddiad yn is yng Nghymru (0.7%) nag yn Lloegr (1.1%), ond yn uwch na'r Alban (0.4%).<sup>104</sup> Yn 2008/09, cafodd 213 o blant eu gwahardd yn barhaol o ysgolion yng Nghymru. Roedd tua thri chwarter o'r rheiny a gafodd eu gwahardd yn barhaol yn fechgyn.<sup>105</sup>

Yng Nghymru, roedd 53% o waharddiadau parhaol yn cynnwys disgyblion ar y gofrestr SEN. Ble roedd data ar gael, roedd 93% o waharddiadau parhaol yn cynnwys disgyblion o gefndiroedd ethnig gwyn.<sup>106</sup> Mae disgyblion o gefndiroedd ethnig gwyn yn ffurfio 95% o'r holl ddisgyblion<sup>107</sup>, felly mae hyn yn golygu bod disgyblion o gefndiroedd nad ydynt yn wyn o leiaf pumed ran yn fwy tebygol o gael eu gwahardd na'r rheiny o gefndiroedd gwyn.

---

103 Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyrhaeddiad Addysgol yn ôl Nodweddion Disgyblion, 2005-2008

104 Ystadegau Cymru, Gwaharddiadau o Ysgolion Cymru, 2008/09

105 EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 311

106 EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 313

107 Ysgolion Cymru: Ystadegau Cyffredinol 2009, Ystadegau Cymru

Mae'r Adolygaid Teirblwydd i Brydain yn dangos bod disgyblion yn Lloegr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim o leiaf ddwywaith mwy tebygol o gael eu gwahardd yn barhaol na'r cyfartaledd.<sup>108</sup>

## **Bwlio, parch a chefnogaeth**

Mae bod yn ddiodefwr bwlio yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad addysgol plentyn.<sup>109</sup> Pan ofynnwyd os oedd bwlio'n broblem yn eu hysgol, dywedodd 32% o ddisgyblion yng Nghymru ei fod, cyfran is nag yn Lloegr (48%) neu'r Alban (43%). Fodd bynnag adroddodd yr un gyfran o ddisgyblion yng Nghymru ag mewn mannau eraill eu bod wedi cael profiad uniongyrchol o fwlio yn y tri mis blaenorol (tua 10% ym mhob man).<sup>110</sup>

Mae'r Adolygaid Teirblwydd i Brydain yn dangos bod myfyrwyr anabl, lesbiaidd, hoyw a thrawsrywedd a'r rheiny o grwpiau sosio-economaidd is i gyd yn fwy tebygol o adrodd eu bod wedi profi lefelau uchel o fwlio. Mae'r arolygon hyn yn defnyddio gwahanol fethodolegau ac felly mae'r gwahaniaethau gwirioneddol rhwng grwpiau'n anodd i'w meintoli.<sup>111</sup>

## **Cyrhaeddiad addysgol yn 16 oed**

Mae cyrhaeddiad ar 16 oed yng Nghymru wedi bod yn is ers amser maith o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU, ac yn wir yn rhyngwladol. Yn 2009 cafodd 47% o ddisgyblion 16 oed 5 neu fwy TGAU gradd C neu uwch yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a Mathemateg, ffigwr sydd wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2001.<sup>112</sup> Er nad yw'n bosib cymharu'r data'n uniongyrchol, mae'n ymddangos bod y gyfran hon ychydig yn is nag yn Lloegr (51%).<sup>113</sup>

Y gwahaniaeth mwyaf yw'r un yn ôl incwm. Mae disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ddwywaith a hanner mwy tebygol o gyflawni graddau A\*-C yn y pynciau craidd mewn TGAU na disgyblion sy'n gymwys (52% o ddisgyblion nad ydynt yn gymwys o'i gymharu ag 20% o ddisgyblion cymwys).

---

<sup>108</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 312

<sup>109</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 318

<sup>110</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 318

<sup>111</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 322

<sup>112</sup> EHRC, 2011, An Anatomy of Economic Inequality in Wales

<sup>113</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 327

Mae'n ymddangos bod y bwllch hwn wedi ehangu yn y blynyddoedd diweddar.<sup>114</sup> Y ffigyrau cymaradwy ar gyfer Lloegr yw 27% a 54%.<sup>115</sup>

Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yng Nghymru. Mae 51% o ferched yn cael 5 TGAU craidd gradd A\*-C o gymharu â 43% o fechgyn yn 2008/09. Roedd y bwllch rhywedd wyth pwynt yn fwy nag yn Lloegr (7 pwynt canran) neu'r Alban (4 pwynt canran). Dim ond 12% o blant ar y gofrestr SEN oedd yn cael 5 TGAU neu fwy ar y trothwy hwn. Ymhellach at hynny nid yw'r grŵp hwn wedi dangos cynnydd mewn cyrhaeddiad blwyddyn ar ôl blwyddyn, yn wahanol i grwpiau eraill.<sup>116</sup>

Mae gwahaniaethau yn ôl ethnigedd yn nodedig yn 16 oed yng Nghymru, fel ag yn Lloegr. Mae disgyblion Tsieineaidd yn fwy na dwywaith mwy tebygol o gyflawni gradd C neu uwch yn yr holl bynciau craidd mewn TGAU na disgyblion Du Caribiaidd a Du Affricanaidd (68% o gymharu â 31% ar gyfer disgyblion du).<sup>117</sup> Fodd bynnag, mae cefndir sosio-economaidd a rhywedd hefyd yn ffactorau yn y canfyddiadau hyn.

## Cyfranogiad mewn addysg uwch

Mae'r nifer o gofrestriadau newydd mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU gan fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru wedi cynyddu dros 20% ers 200/01.<sup>118</sup> Yn 2008/09, bu i 121,795 o ddisgyblion gofrestru mewn sefydliad addysg uwch unai ar gyfer cwrs rhan-amser neu lawn-amser, unai ar lefel raddedig neu ôl-raddedig.

Roedd ychydig dros hanner (57%) o'r holl gofrestriadau o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru mewn sefydliadau Addysg Uwch y DU yn 2009 yn fenywod. Mae llai nag un o bob deg o gofrestriadau o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru gan unigolyn anabl,<sup>119</sup> er bod pobl anabl tua un rhan o bump o'r boblogaeth oed gwaith.

---

<sup>114</sup> EHRC, 2011, An Anatomy of Economic Inequality in Wales

<sup>115</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 328

<sup>116</sup> EHRC, 2011, An Anatomy of Economic Inequality in Wales

<sup>117</sup> EHRC, 2011, An Anatomy of Economic Inequality in Wales

<sup>118</sup> Ystadegau Cymru, Myfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch, 2008/09, 2009

<sup>119</sup> Ystadegau Cymru, Cofrestriadau rhai sy'n byw yng Nghymru mewn SAU y DU yn ohywedd, a lefel astudio (ethingedd, blwyddyn astudio, blwyddyn)  
<http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=24168>,  
cyrchwyd 01/02/2011

Roedd 7% o gofrestrïadau mewn prifysgolion Cymreig gan fyfyrwyr o gefndiroedd lleiafrif ethnig<sup>120</sup> er eu bod tua 5% o'r boblogaeth oed ysgol.

## Oedolion â diffyg sgiliau llythrennedd a rhifedd

Data yn dangos gwahaniaethau rhanbarthol a gwladol o ran sgiliau sylfaenol a chymwysterau wedi'i restrï yn ôl llythrennedd sylfaenol i boblogaeth o oed gweithio

% y boblogaeth	Diffyg rhifedd gweithredol	Diffyg llythrennedd gweithredol	Heb gymwysterau	5+ gradd TGAU A* - C neu gyfwerth	Cymhwyster safon gradd*
<b>Lloegr<sup>1</sup></b>	<b>47</b>	<b>16</b>	<b>13</b>	<b>26</b>	<b>13</b>
Dwyrain	41	12	13	28	12
De-ddwyrain	41	12	10	26	15
Dwyrain Canolbarth	49	16	14	26	12
Gogledd-orllewin	49	17	15	27	12
Gorllewin Canolbarth	47	18	17	26	12
Llundain	48	19	14	21	20
Swydd Efrog a HwMBER	51	19	15	27	11
Gogledd-ddwyrain	54	22	14	27	10
<b>Cymru<sup>2</sup></b>	<b>53</b>	<b>25</b>	<b>16</b>	<b>27</b>	<b>11</b>
<b>Yr Alban<sup>3</sup></b>	Amherthnasol	Amherthnasol	<b>14</b>	<b>20</b>	<b>13</b>

<sup>120</sup> Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, Ffocws Ystadegol ar Ethnigedd yng Nghymru, 2004

## Ffynhonnell:

1. Tablau data wedi'u darparu gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau drwy ddefnyddio Arolwg o Sgiliau Bywyd, Lloegr 2002/03 a Dadansoddiad y Panel Cydraddoldeb Cenedlaethol o Arolwg o Lafurlu 2006-08.
  2. Tablau data wedi'u darparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy ddefnyddio Arolwg o Sgiliau Sylfaenol 2004 a Dadansoddiad y Panel Cydraddoldeb Cenedlaethol o Arolwg o Lafurlu 2006-08.
  3. Dadansoddiad y Panel Cydraddoldeb Cenedlaethol o Arolwg o Lafurlu 2006-08.
- Nodyn: Nid yw cymhwyster safon gradd\* yn cynnwys graddau uwch.

Mae gan Gymru lefelau uwch o anllythrennedd gweithredol nag yn Lloegr er bod tua'r un lefelau o ddiffyg rhifedd gweithredol: mae 25% o bobl yng Nghymru gyda diffyg sgiliau llythrennedd gweithredol (o gymharu â 16% o'r rheiny yn Lloegr) a thua hanner o oedolion yng Nghymru â diffyg sgiliau rhifedd gweithredol.<sup>121</sup>

Mae pobl sydd mewn grwpiau sosio-economaidd is yn fwy tebygol o gael diffyg sgiliau llythrennedd a rhifedd – mae 36% o'r rheiny mewn galwedigaethau llaw wedi methu â chyflawni llythrennedd gweithredol o gymharu â 13% o'r rheiny mewn galwedigaethau rheoli a phroffesiynol. Yn yr un modd, mae 60% o'r rheiny mewn galwedigaethau dosbarth gweithiol gyda diffyg rhifedd gweithredol o gymharu â 36% o'r rheiny mewn galwedigaethau rheoli a phroffesiynol.<sup>122</sup>

Yng Nghymru, nid oes gwahaniaeth rhywedd ar gyfer llythrennedd, ond mae dynion yn llai tebygol na menywod o fod â diffyg rhifedd gweithredol (54% o gymharu â 39%). Yn nhermau oedran, mae pobl hŷn yn fwy tebygol o fod â diffyg sgiliau llythrennedd a rhifedd gweithredol na phobl iau.<sup>123</sup>

Mae pobl ag anableddau dysgu yn llawer mwy tebygol o fod â diffyg llythrennedd a rhifedd sylfaenol na gweddill y boblogaeth (48% o'i gymharu â 21%).

---

<sup>121</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 348

<sup>122</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 350

<sup>123</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 349



Mae pobl o gefndiroedd lleiafrif ethnig yn fwy tebygol o fethu cyflawni llythrennedd gweithredol o gymharu â phobl wyn (41% o'i gymharu â 24%). Yn achos rhifedd, mae bwlch pwynt canran tebyg yn bodoli - 69% o'i gymharu â 53%. Mae a wnelo llawer o'r bwlch hwn â gwlad eu genedigaeth – mae'r rheiny sydd wedi'u geni y tu allan i Gymru yn llawer llai tebygol o gael llythrennedd a rhifedd sylfaenol na'r rheiny a gafodd eu geni yng Nghymru.

## Diffyg cymwysterau

Mae pobl yng Nghymru yn fwy tebygol o fod â diffyg cymwysterau na phobl yn yr Alban neu Loegr (16% o'i gymharu â 14% a 13% yn ôl eu trefn). Mae cyfran is o bobl yng Nghymru gyda gradd nag unrhyw ranbarth o Loegr heblaw am y Gogledd Ddwyrain.<sup>124</sup>

Mae amrywiaeth nodedig yn ôl grŵp sosio-economaidd: mae 6% o ddynion a 4% o fenywod yn y degfed isaf o'r dosbarthiad incwm a chymhwyster lefel gradd. Yn y degfed uchaf, y ffigyrau yw 21% a 22% yn ôl eu trefn.<sup>125</sup>

Dim ond amrywiaeth fechan iawn sydd rhwng y gyfran o ddynion a menywod sydd â graddau.

Mae, fodd bynnag, amrywiaeth fwy gydag oedran. Mae grwpiau oedran iau yn tueddu i fod â chymwysterau uwch, gyda chyfran uwch o raddedigion a chanran llawer is heb unrhyw gymwysterau ffurfiol, na'r grwpiau oedran hŷn, yn enwedig y rheiny sydd dros 50 oed.<sup>126</sup> Mae'r patrwm hwn yn hynod o amlwg yn achos menywod.

Y rheiny sy'n adrodd nad oes ganddynt unrhyw anabledd sydd â'r canlyniadau addysgol gorau o bell ffordd. Mae cyfran uchel o bobl heb ddim cymwysterau ymysg y rheiny sy'n anabl: mae 35 y cant o ddynion a 37 y cant o fenywod heb ddim cymwysterau. Dim ond tua 6 y cant o'r grŵp hwn sydd â gradd.<sup>127</sup> Mae hyn yn ategu canfyddiadau Adolygaid Teirblwydd i Brydain.<sup>128</sup>

---

<sup>124</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 348

<sup>125</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 352

<sup>126</sup> EHRC, 2011, An Anatomy of Economic Inequality in Wales

<sup>127</sup> EHRC, 2011, An Anatomy of Economic Inequality in Wales


<sup>128</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 353

Mae amrywiaethau sylweddol hefyd rhwng grwpiau ethnig, gyda ffigyrau (gweddol betrus) ar gyfer Cymru<sup>129</sup> yn cadarnhau canfyddiadau Prydain mai dynion Indiaidd a Tsieineaidd sydd â'r cymwysterau gorau tra bod dynion Bangladeshaid a menywod Pacistanaidd a Bangladeshaid â'r gyfradd uchaf o ddim cymwysterau.

Yn nhermau crefydd, Cristnogion a'r rheiny heb grefydd yw'r lleiaf tebygol o gael gradd.<sup>130</sup>

## Addysg oedolion

Y nifer a gymerodd rhan mewn Addysg Oedolion yn ôl ethnigrwydd ym Mhrydain, yr Alban a Chymru 2006/08



Ffynhonnell: Arolwg o Lafurlu.

<sup>129</sup> EHRC, 2011, An Anatomy of Economic Inequality in Wales

<sup>130</sup> EHRC, 2011, An Anatomy of Economic Inequality in Wales

Roedd y gyfran o ddynion a menywod a oedd yn cymryd rhan mewn addysg oedolion yng Nghymru yn 2006-2008 yn is na gweddill Prydain (37% a 40% o'i gymharu â 41% ar gyfartaledd ym Mhrydain).<sup>131</sup> Mae'r rheiny sydd mewn grwpiau rheoli a phroffesiynol uwch yn ddwywaith mwy tebygol o gymryd rhan mewn addysg oedolion o gymharu â'r rheiny sydd mewn galwedigaethau gwaith llaw neu ailadroddus (60% o'i gymharu â 30%).

Mae'r gyfran sy'n cymryd rhan mewn addysg oedolion yn gostwng gydag oed yng Nghymru yn yr un modd â gweddill Prydain.

Mae 65% o unigolion 18-24 oed a 50% o unigolion 25-44 oed yn cymryd rhan, o'i gymharu â 35% o unigolion 45-64 oed a thua 10% o'r rheiny dros 60 oed.

Oedolion Indiaidd yw'r mwyaf tebygol o gymryd rhan mewn addysg oedolion (59%), ac oedolion Pacistanaidd neu Bangladeshaid y lleiaf tebygol (18%).<sup>132</sup>

Mae pobl anabl yn cymryd rhan mewn addysg oedolion ar hanner y gyfradd o bobl nad ydynt yn anabl.<sup>133</sup>

## Defnyddio'r rhyngrwyd

Roedd ychydig o dan 70% o aelwydydd yng Nghymru gyda mynediad i'r rhyngrwyd yn 2008, sy'n is nag yn Lloegr ond yn uwch na'r Alban.<sup>134</sup>

Mae arolygon penodol am Gymru<sup>135</sup> yn dangos tra bod 69% o bobl â mynediad i'r rhyngrwyd, mae'r gyfradd yn disgyn i 54% yn achos pobl o grwpiau cymdeithasol DE o'i gymharu â 86% yn achos rheiny o grŵp cymdeithasol AB. Ond mae'r bwlch mwyaf yn gysylltiedig ag oed: roedd chwarter y bobl dros 65 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd yn 2009, cynnydd o 14% o 2006. Grwpiau oed iau (16 i 24) oedd â'r gyfradd uchaf o gysylltiadau rhyngrwyd o'r holl grwpiau oed, ar 89%.<sup>136</sup>

---

<sup>131</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 362

<sup>132</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 367

<sup>133</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 366

<sup>134</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 370

<sup>135</sup> Consumer Focus Wales (Tach 2009). Logged in or Locked Out. Consumer access to the internet in Wales.

<sup>136</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, Byw yng Nghymru, 2008

Drwy Brydain gyfan, roedd dynion yn fwy tebygol o ddefnyddio'r rhyngwrwd na menywod, ac roedd yr amrywiaeth yn ôl ethnigedd yn llai sylweddol nag yn ôl oedran neu ddsbarth cymdeithasol.<sup>137</sup>

Er mai ond ychydig o ddata oedd ar gael ynghylch mynediad i'r rhyngwrwd yn ôl anabledd, mae'r adroddiad yn gwneud sylw bod pobl anabl yn aml yn methu defnyddio dyfeisiadau symudol penodol er mwyn cael mynediad i'r rhyngwrwd.<sup>138</sup>

---

<sup>137</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 369

<sup>138</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 373

# Cyflogaeth

## Pwyntiau allweddol

- Mae'r lefel gyffredinol o gyflogaeth yn is yng Nghymru nag yng ngweddill Prydain, yn gysylltiedig â lefelau uchel o salwch ac anabledd tymor hir.
- Mae lefelau cyflogaeth ymysg dynion dros 50 oed yn llawer is yng Nghymru nag yng ngweddill Prydain.
- Mae Cymru gyda chyfran ychydig uwch o bobl oedd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ymhlith y grŵp 16-24 oed o'i gymharu â Lloegr.
- Mae'r tâl cyfartalog yn is yng Nghymru nag yng ngweddill Prydain. Mae'r bwlch tâl rhywedd yn is yng Nghymru oherwydd cyfradd is o ddynion sydd â thâl llawn amser.
- Mae gwahaniad sylweddol o fewn y farchnad lafur Gymreig, gyda menywod wedi eu canoli mewn gwaith iechyd, addysg a gweinyddol, tra bod dynion wedi'u clystyru mewn cynhyrchu a chludiant.
- Roedd digwyddiad o anaf yn y gwaith yng Nghymru yn uwch nag mewn manau eraill ym Mhrydain. Mae'r gyfradd yn amrywio rhwng grwpiau a ddiogelir, yn bennaf oherwydd gwahaniad galwedigaethol.
- Ar y cyfan drwy Brydain, mae gweithwyr anabl a hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol dros ddwywaith mwy tebygol na gweithwyr eraill o adrodd ynghylch profiad o wahaniaethu.

## Cyfran mewn cyflogaeth

Roedd y gyfran o oedolion oed gwaith mewn cyflogaeth yng Nghymru yn 2010 yn is nag yng ngweddill Prydain.<sup>139</sup> Roedd 70% o ddynion a 67% o fenywod naill ai'n gyflogedig (rhan amser neu lawn amser) neu'n hunangyflogedig, o'i gymharu â 75% o ddynion a 69% o fenywod yng ngweddill y DU. Mae hyn yn golygu bod bwlch cyflogaeth Cymru / Prydain yn fwy yn achos dynion nag yw yn achos menywod.

---

<sup>139</sup> EHRC, 2011, An Anatomy of Economic Inequality in Wales

Mae bwlch cyflogaeth hefyd rhwng menywod a dynion yng Nghymru, o tua 3 pwynt canran. Mae cyfran uwch o ddynion a menywod yng Nghymru nad ydynt yn gweithio oherwydd salwch tymor hir neu iechyd gwael o'i gymharu â gweddill y DU. Mae 8% o ddynion a menywod yng Nghymru yn economaidd anweithgar oherwydd iechyd gwael neu anabledd, o'i gymharu â 6% a 5% yn ôl eu trefn mewn mannau eraill yn y DU.<sup>140</sup>

Yn gyffredinol mae cyflogaeth yn cyrraedd ei binacl i ddynion a menywod rhwng oedrannau 35 a 39 pan mae 88% o ddynion a 73% o fenywod mewn cyflogaeth neu hunangyflogaeth, ac mae'n gostwng ymysg y rheiny sydd rhwng 50 – 64 oed. Mae cyfraddau cyflogaeth mor isel fel mai dim ond prin hanner y dynion yn y grŵp oed yma sydd mewn cyflogaeth ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, tra bod llai na hanner y menywod mewn cyflogaeth ym Mlaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Castell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf.<sup>141</sup>

Mae'r gyfran o ddynion a menywod anabl, ond nad oes ganddynt anabledd sy'n cyfyngu ar waith, sydd mewn cyflogaeth neu hunangyflogaeth yn debyg iawn i'r ffigwr ar gyfer oedolion nad ydynt yn anabl. Fodd bynnag mae bod yn anabl a bod â nam cyfyngus ar waith yn gysylltiedig â thebygolrwydd llawer is o fod mewn cyflogaeth o'i gymharu â'r rheiny heb gyflyrau o'r fath. Nid yw dynion sydd ag anabledd cyfyngus ar waith a chyfyngus ar weithgaredd ond 5% mor debygol o fod mewn cyflogaeth â dynion heb gyflyrau o'r fath. Mae'r ffigwr ar gyfer menywod yn debyg ar 10%.<sup>142</sup>

Yn nhermau ethnigedd, mae dynion a menywod sydd heb fod yn wyn â chyfraddau cyflogaeth is na'u cyfoedion gwyn yng Nghymru, ond mae hyn yn amrywio'n fawr iawn rhwng grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Mae dynion Bangladeshaid yn 330% mwy tebygol o fod mewn cyflogaeth o'u cymharu â dynion gwyn. I'r gwrthwyneb, mae dynion Du Caribiaidd a Du Affricanaidd yn llai na hanner mor debygol o fod mewn cyflogaeth.<sup>143</sup> Mae cyfraddau cyflogaeth menywod Bangladeshaid a Phacistanaid yn hynod o isel, dim ond 8% a 11% yn ôl eu trefn sy'n gweithio llawn amser.<sup>144</sup>

---

<sup>140</sup> EHRC, 2011, An Anatomy of Economic Inequality in Wales

<sup>141</sup> Ystadegau Marchnad Lafur NOMIS i'r flwyddyn hyd at Fehefin 2010, cyrchwyd 124 Chwefror 2011

<sup>142</sup> EHRC, (2011), An Anatomy of Economic Inequality in Wales

<sup>143</sup> EHRC, (2011), An Anatomy of Economic Inequality in Wales

<sup>144</sup> EHRC, (2011), An Anatomy of Economic Inequality in Wales

Er gwaethaf y niferoedd bach sy'n cael eu trafod, mae'n ymddangos bod gan grefydd lawer mwy o ddylanwad ar statws cyflogaeth nag ethnigedd. Mae dynion a menywod Mwslimaidd yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth, ac yn enwedig cyflogaeth llawn amser, na grwpiau crefyddol eraill.<sup>145</sup>

Mae'r Adolygaid Teirblwydd i Brydain yn cynnwys peth dadansoddiad o gyfraddau cyflogaeth ymysg cyplau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGB) drwy Brydain. Ychydig o wahaniaeth sy'n cael ei ganfod rhwng cyfraddau cyflogaeth y boblogaeth LGB a'r cyfartaledd cenedlaethol.<sup>146</sup>

### **Dim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)**

Yn 2009, nid oedd un o bob wyth o unigolion 16-18 oed yng Nghymru mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).<sup>147</sup> Roedd hyn ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, ond yn y degawd diwethaf, bu'r gyfradd bob amser rhwng 13% ac 11%. Dros y cyfnod hwn, mae'r gyfradd yng Nghymru yn gyffredinol wedi bod un neu ddau bwynt canran yn uwch na Lloegr.

Mae'r Adolygaid Teirblwydd i Brydain<sup>148</sup> yn awgrymu yn Lloegr a Chymru, bod bechgyn yn fwy tebygol o fod yn NEET rhwng 16 a 18 oed, ond mae'r gwahaniaeth rhywedd hwn yn gwrth-droi erbyn 22 oed. Mae pobl ifanc anabl yn fwy tebygol o fod yn NEET na phobl nad ydynt yn anabl.

Mae'r darlun yn ôl ethnigedd yn gymysg, yn yr ystyr bod y gyfradd o oedolion ifanc nad ydynt yn wyn sy'n NEET yn cynyddu rhwng 19 a 24 oed, ymysg y boblogaeth wyn nid yw'r gyfradd yn newid bron ddim. Felly erbyn 25 oed, mae pobl Ddu ac Asiaidd yn llawer mwy tebygol o fod yn NEET na phobl wyn, gwahaniaeth a oedd yn llawer llai amlwg ar oedran ieuengach.<sup>149</sup>

Mae'r Adolygaid Teirblwydd i Brydain hefyd â data o Loegr ar wahaniaethau yn ôl incwm a grŵp sosio-economaidd. Mae plant yn Lloegr a oedd yn cael prydau ysgol am ddim ym Mlwyddyn 11 yn yr ysgol yn fwy na dwywaith mwy tebygol o fod yn NEET yn 17 oed na phlant eraill.

---

<sup>145</sup> EHRC, (2011), An Anatomy of Economic Inequality in Wales

<sup>146</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 407

<sup>147</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Pobl ifanc sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) (Blwyddyn hyd at 30 Mehefin 2009), SB 59/2010

<sup>148</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 392

<sup>149</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 404

Roedd y rheiny o gefndiroedd gwaith ailadroddus neu waith llaw, nad oedd eu rhieni yn gweithio, hyd at bedair gwaith mwy tebygol o fod yn NEET yn 17 oed na phlant eraill.<sup>150</sup>

## Bwlch cyflog

Mae enillion yng Nghymru, ar gyfartaledd, yn is na'r rhai yn y DU ac mae hyn yn wir ar bob pwynt o'r dosbarthiad enillion.<sup>151</sup> Yng Nghymru, ymysg y rhai sydd mewn gwaith, mae gwahaniaethau trawiadol yn y cyfraddau tâl cyfartalog.

Mae'r bwlch tâl ar sail rhywedd yng Nghymru – y bwlch rhwng canolrif tâl menywod a chanolrif tâl dynion – yn llai nag yng ngweddill y DU. Yn 2010, roedd y canolrif cyflog fesul awr ar gyfer menywod a oedd yn gweithio llawn amser yn 8% yn is nag ar gyfer dynion oedd yn gweithio llawn amser. Yng ngweddill y DU, roedd y bwlch yn 10%.<sup>152</sup> Y rheswm dros hyn yw bod y canolrif tâl fesul awr ar gyfer dynion sy'n gweithio llawn amser yng Nghymru, ar £11.65, ddim ond 90% o ganolrif y DU, ble'r oedd yn £13.01. Roedd canolrif tâl fesul awr menywod yng Nghymru yn 92% o ffigwr y DU ar £10.72, o'i gymharu â £11.68 yn y DU ar y cyfan.

Yn achos pobl a oedd yn gweithio rhan amser, nid oes bwlch cyflog ar sail rhywedd werth sôn amdano. Os rhywbeth, mae tâl fesul awr i fenywod mewn gwaith rhan amser yn uwch na'r raddfa gyfatebol i ddynion.

Mae gwahaniaethau mewn tâl fesul awr yn ôl oed, ond mae'r dosbarthiad yn amrywio yn ôl rhywedd. Mae cyflogau menywod yn dod i'r brig ar oedran ieuengach na dynion, yng Nghymru ac yng ngweddill y DU. Mae cyflogau menywod yn dod i'r brig rhwng 35 a 39 oed, tra bod cyflog fesul awr dynion dod i'r brig rhwng 45 a 49 oed.<sup>153</sup>

Mae pobl anabl yn ennill llai, ar gyfartaledd, fesul awr na phobl nad ydynt yn anabl â'r rheiny sy'n gweithio llawn-amser yn ennill 7% yn llai na phobl heb anabled.<sup>154</sup> Mae'r patrwm hwn yn gyson ar draws y DU, er bod y bwlch yn llai yng Nghymru nag mewn mannau eraill.

Mae patrymau'n amrywio ymysg grwpiau ethnig yng Nghymru: mae dynion Indiaidd yn ennill mwy na'r cyfartaledd i ddynion ac mae dynion

---

<sup>150</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 394

<sup>151</sup> EHRC, 2011, An Anatomy of Economic Inequality in Wales

<sup>152</sup> Annual Survey of Hours and Earnings, ONS, 2010

<sup>153</sup> EHRC, 2011, An Anatomy of Economic Inequality in Wales

<sup>154</sup> EHRC, 2011, An Anatomy of Economic Inequality in Wales



Pacistanaid a Bangladeshaidd yn ennill llai na'r cyfartaledd i ddynion. Mae patrwm tebyg i'w weld ymysg menywod.<sup>155</sup> Fodd bynnag, wrth ystyried ffactorau eraill, amcangyfrifir nad yw ethnigedd gydag effaith sylweddol ar enillion yng Nghymru.<sup>156</sup>

Yn ôl crefydd, mae enillion fesul awr yn ymddangos ychydig yn uwch ar gyfer dynion Hindŵ a Sikh ac yn is ar gyfer dynion Mwslimaidd o'i gymharu â'r cyfartaledd i ddynion. Mae meintiau'r samplau yn y dadansoddiad, fodd bynnag, yn fach iawn.<sup>157</sup>

## Gwahaniad galwedigaethol

Mae gwahaniad galwedigaethol – y crynodiad o wahanol grwpiau i alwedigaethau penodol – yn gallu bod yn llorweddol, dros wahanol sectorau o'r farchnad waith, ac yn fertigol, rhwng gwahanol lefelau o'r un sector.

Canfu'r adolygiad o dystiolaeth ymchwil<sup>158</sup> wahaniad galwedigaethol mawr yng Nghymru ar draws yr holl nodweddion a amddiffynnir, er bod ansawdd ac amseroldeb y data yn amrywio. Mae peth tystiolaeth bod gwahaniad galwedigaethol yn ôl rhywedd yn uwch yng Nghymru nag yng ngweddill Prydain.

Mae menywod yn ddwy ran o dair o'r rheiny sy'n gweithio mewn swyddi iechyd, addysg, gweinyddol neu wasanaethau yng Nghymru. Dynion yw'r mwyafrif o'r gweithwyr mewn cludiant, cynhyrchu a chrefftau â sgil.<sup>159</sup>

Mae peth tystiolaeth bod pobl anabl yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn swyddi sgil isel na phobl nad ydynt yn anabl. Hefyd, roedd salwch tymor hir yn fwy cyffredin ymysg y rheiny mewn galwedigaethau ailadroddus na'r rheiny mewn galwedigaethau proffesiynol (31% o'i gymharu â 22%).<sup>160</sup>

Roedd y gyfran o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a oedd yn gweithio mewn gyrfaoedd proffesiynol yn uwch nag ar gyfer y boblogaeth wyn.

---

<sup>155</sup> EHRC, 2011, An Anatomy of Economic Inequality in Wales

<sup>156</sup> EHRC, 2011, An Anatomy of Economic Inequality in Wales

<sup>157</sup> EHRC, 2011, An Anatomy of Economic Inequality in Wales

<sup>158</sup> EHRC, Equality Issues in Wales, a Research Review, (2009), Winckler, V. ed.

<sup>159</sup> EHRC, Equality Issues in Wales, a Research Review, (2009), Winckler, V. ed.

<sup>160</sup> EHRC, Equality Issues in Wales, a Research Review, (2009), Winckler, V. ed.

Fodd bynnag, ymysg y grwpiau lleiafrifoedd ethnig mae clystyru sylweddol mewn sectorau penodol: er enghraifft mae dros hanner o fenywod Bangladeshaid a dwy ran o dair o ddynion Bangladeshaid yn cael eu cyflogi mewn gwestai neu arlwy. <sup>161</sup>

Ar gyfer Prydain ar y cyfan, mae tystiolaeth yn awgrymu bod dynion a menywod mewn cyplau o'r un rhyw yn fwy tebygol o fod mewn galwedigaethau proffesiynol na dynion neu fenywod eraill. Mae llawer o'r gwahaniaeth hwn yn ymwneud â lefelau uwch o gymwysterau ar gyfartaledd ymysg pobl mewn partneriaethau o'r un rhyw. <sup>162</sup>

## **Salwch ac anafiadau yn y gwaith**

Mae rhai swyddi'n llawer mwy peryglus nag eraill, ac mae'r risgiau'n amrywio'n fawr ar draws y grwpiau. Ar gyfartaledd rhwng 2007/08 a 2008/09, roedd 950 digwyddiad o anafiadau fesul 100,000 o weithwyr yng Nghymru, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Prydain i gyd. <sup>163</sup> Yn 2009/10, adroddodd 1,960 o weithwyr fesul 100,000 yng Nghymru salwch oedd naill ai wedi'i achosi neu wedi'i waethygu gan waith, sydd eto ychydig yn uwch nag yn Lloegr.

Yn achos Prydain mae ychydig o amrywiaeth rhwng y grwpiau, a gellir esbonio llawer ohono gan wahaniad i wahanol fathau o swyddi. Mae dynion yn dioddef mwy o anafiadau cysylltiedig â'r gwaith na menywod gan eu bod yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn galwedigaethau peryglus. I'r gwrthwyneb, mae crynodiad pobl De Asia mewn gwaith llai peryglus yn golygu eu bod yn llai tebygol o gael eu hanafu yn y gwaith na grwpiau ethnig eraill. <sup>164</sup>

---

<sup>161</sup> EHRC, Equality Issues in Wales, a Research Review, (2009), Winckler, V. ed.

<sup>162</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 430

<sup>163</sup> gweithrediaeth iechyd a diogelwch (dim dyddiad) statistics of occupational ill health, safety and enforcement

<sup>164</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 440

## Gwahaniaethu mewn cyflogaeth

Mae gwahaniaethu yn y gwaith yn gallu amlygu ei hun mewn amryw o ffyrdd, o fwlio ac aflonyddu i beidio cael ystyriaeth am ddyrchafiad a chodiad cyflog.

Mae un o bob deg o weithwyr yng Nghymru yn dweud eu bod wedi'u trin yn annheg, cyfran ychydig yn is nag yn Lloegr (14%) neu'r Alban (12%).

Yng Nghymru adroddodd 4% eu bod yn profi gwahaniaethu, o'i gymharu â 8% yn Lloegr a 3% yn yr Alban, tra bod y gyfradd o weithwyr yng Nghymru a oedd wedi profi bwlio neu aflonyddu, ar 7%, yr un fath yng Nghymru ag ym Mhrydain ar gyfartaledd.<sup>165</sup>

Mae'r Adolygaid Teirblwydd i Brydain<sup>166</sup> cyfan yn dod i'r casgliad bod gweithwyr anabl a gweithwyr hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol dros ddwywaith mor debygol â gweithwyr eraill o adrodd eu bod wedi profi gwahaniaethu, bwlio neu aflonyddu yn y gweithle. Mae'r croestoriadau o wahanol nodweddion a amddiffynnir hefyd yn datgelu llawer. Yn benodol, mae menywod anabl yn bedair gwaith mwy tebygol o adrodd eu bod yn cael eu bwlio na gweithwyr eraill.

Mae menywod a grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn dioddef gwahaniaethu yn achos dyrchafiad na dynion gwyn.<sup>167</sup>

Mae astudiaethau graddfa fechan yn dangos bod pobl trawsrywedd yn profi anawsterau penodol yn y gweithle.<sup>168</sup>

---

<sup>165</sup> Fevre, R., Nichols, T., Prior, G., and Rutherford, I., 2009. Fair Treatment at Work Report 2009: Findings from the 2008 Survey. Employment Relations Research Series 103. London: Department for Business, Innovation and Skills.

<sup>166</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 443

<sup>167</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 443

<sup>168</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 443

## Safon Byw

### Pwyntiau allweddol

- Mae gan Gymru lefel debyg o gyfoeth cyfartalog i Loegr, ond lefel ychydig yn is o anghyfartaledd cyfoeth cyffredinol. Mae'r deigradd cyfoethocaf yn dal i fod ag oddeutu 90 gwaith cyfoeth y tlotaf.
- Mae un o bob pedwar o blant Cymru yn byw mewn aelwyd ble fo'r incwm islaw 60% o'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r gyfradd o blant mewn aelwydydd incwm isel yn uwch nag oedolion oed gwaith neu bensiywyr.
- Mae aelwydydd ble fo un o'r oedolion yn anabl yn fwy tebygol o fod ag incwm isel nag aelwydydd eraill.
- Mae un o bob saith o ddynion ac un o bob pump o fenywod sy'n gweithio yng Nghymru yn ennill cyflog sy'n is na 60% o'r tâl fesul awr cenedlaethol.
- Mae ansawdd tai yn amrywio, gydag aelwydydd gyda menywod yn benteulu yn arbennig o debygol o fyw mewn llety gwael. Mae eu llety hefyd yn fwy tebygol o fod yn orlawn nag aelwydydd ble mai dyn yw'r penteulu.

### Cyfoeth

Cyfanswm anghydraddoldeb cyfoeth rhwng ac o fewn gwledydd ym Mhrydain, 2006/08

Gwlad/Rhanbarth	Canolrif cyfoeth (£)	Safle yn y dosraniad cyflawn	Cymhareb 90:10
Prydain yn Gyffredinol	204,500	50	97
Lloegr	210,600	50	96
Cymru	205,500	50	90
Yr Alban	150,600	42	93

Ffynhonnell: Arolwg o Gyfoeth ac Asedau 2006/08

Mae cyfoeth fel mae'n cael ei fesur yma yn cynnwys cynilion, buddsoddiadau, ac, yn gyffredin iawn, eiddo.

Mae lefel canolrif cyfoeth aelwydydd yng Nghymru, ar £205,500, yn agos iawn i'r canolrif yn Lloegr. Mae llawer uwch na chanolrif yr Alban.<sup>169</sup> Mae'r gymhareb o gyfoeth y 10% uchaf â'r 10% isaf (y gymhareb 90:10) ychydig yn is yng Nghymru nag yn Lloegr. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn wir fod y 10% uchaf o aelwydydd yng Nghymru â 90 gwaith y cyfoeth sydd gan y 10% isaf. O ystyried canfyddiadau mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn ynghylch tâl ac incymau, mae'r anghyfartaledd is hwn yn debygol o fod wedi'i achosi gan gyfoeth is ar frig y dosbarthiad yng Nghymru yn hytrach na chyfoeth uwch ar y gwaelod.

Ym Mhrydain yn ei chyfanrwydd<sup>170</sup>, mae pobl yn cronni cyfoeth yn ystod y blynyddoedd gwaith ac yn ei ddefnyddio wrth iddynt fynd yn hŷn, fel pensïynwyr. Felly, mae lefelau o gyfoeth ar ei uchaf ymysg y rheiny sydd rhwng 55-64 oed. Yn anochel, mae lefelau cyfoeth ar eu uchaf ymysg y rheiny mewn galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch.

Mae cyfartaledd cyfoeth grwpiau ethnig heblaw am wyn Prydeinig ac Indiaidd yn llawer is na'r cyfartaledd. Yn ôl crefydd, mae gan Fwslemiaid gyfoeth llawer is na grwpiau crefyddol eraill.

## Cyflog isel

Canran o gyflogeion ag enillion gros yn llai na 60% o ganolrif yn ôl yr awr, Prydain, 2006/09

	Prydain		Lloegr		Yr Alban		Cymru	
	%	Cyfanswm sylfaenol	%	Cyfanswm sylfaenol	%	Cyfanswm sylfaenol	%	Cyfanswm sylfaenol
Dynion	10	120,469	10	86,524	10	20,473	13	13,393
Menywod	17	132,034	17	93,625	17	23,164	20	15,324
<b>Oed:</b>								
16-34 yrs	20	79,274	20	58,049	22	12,331	25	8,702
35-54 yrs	9	130,080	9	91,848	8	23,541	11	14,809
55+	13	43,149	13	30,252	13	7,765	15	5,205
Cyfanswm	14	252,503	14	180,148	14	43,637	16	28,717

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth Hydref 2006 - Medi 2009

<sup>169</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 465

<sup>170</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 466

Yn yr adroddiad hwn rydym yn diffinio cyflog isel fel tâl fesul awr sy'n llai na 60% o'r canolrif. Yng Nghymru yn 2009, roedd 16% o bobl mewn cyflogaeth yn derbyn tâl oedd islaw'r trothwy hwn. Mae'r ffigwr hwn yn uwch nag ydyw yn achos Prydain yn ei chyfanrwydd, ble fo'r ffigwr yn 14%.<sup>171</sup>

Mae 20% o fenywod ac 13% o ddynion yng Nghymru yn derbyn tâl sy'n llai na 60% o'r canolrif cyflog fesul awr ar gyfer Prydain. Eto, mae'r ddau ffigwr yn uwch na'r cyfartaleddau ar gyfer Prydain, sef 17% a 10% yn ôl eu trefn. Mae 25% o unigolion rhwng 16-34 oed yng Nghymru yn derbyn tâl isel, o'i gymharu â 11% o unigolion rhwng 35-54 oed a 15% o weithwyr dros 55 oed.<sup>172</sup>

Mae'r gyfran o weithwyr anabl sydd â thâl isel yng Nghymru, ar 17%, yr un fath â'r cyfartaledd. Mae hyn yn sefyllfa wahanol i Brydain yn ei chyfanrwydd, ble mae pobl anabl yn fwy tebygol o fod â thâl isel na phobl ar gyfartaledd.<sup>173</sup>

Ym Mhrydain yn ei chyfanrwydd, mae tua chwarter o weithwyr Bangladeshaid a Phacistanaid yn derbyn tâl isel, sydd tua dwywaith uwch na'r cyfartaledd. Mae bron i chwarter o weithwyr Mwslimaidd yn derbyn tâl isel.<sup>174</sup>

---

<sup>171</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 475

<sup>172</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 475

<sup>173</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 478

<sup>174</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 480

## Incwm isel

Diffinnir aelwyd fel un ag incwm isel os yw ei hincwm ar ôl trethi a chostau tai yn llai na 60% o'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn honno. Mae incymau'n cael eu haddasu ar gyfer maint a chyfansoddiad aelwydydd, er mwyn gwneud cymariaethau ar draws y gwahanol fathau o aelwydydd posib.

Mae'r gyfran o bobl sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel yng Nghymru, ar 22%, tua'r un fath â gweddill Prydain. Mae'r gyfran hon wedi disgyn ychydig ers yr 1990au hwyr, yn yr un modd â manau eraill.<sup>175</sup>

Mae menywod yn fwy tebygol o fyw mewn aelwydydd incwm isel na dynion. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y rhan fwyaf o rieni sengl, grŵp â risg uchel o incwm isel, yn fenywod.<sup>176</sup>

Yng Nghymru, mae pensïynwyr ychydig yn llai tebygol o fod yn byw mewn aelwydydd incwm isel nag oedolion oed gwaith neu blant. Yn y tair blynedd ddiwethaf ar gyfartaledd, roedd 22% o oedolion oed gwaith yn byw mewn aelwydydd incwm isel o'i gymharu â 18% o bensiynwyr.<sup>177</sup>

Mae aelwydydd ble mae o leiaf un oedolyn anabl yn fwy tebygol o fod ag incwm isel nag aelwydydd eraill. Yng Nghymru, mae 26% o bobl sy'n byw mewn aelwyd gydag o leiaf un oedolyn anabl ag incwm isel, o'i gymharu â 21% o bobl yn byw mewn aelwyd heb oedolyn anabl.<sup>178</sup>

Ym Mhrydain yn ei chyfanrwydd, mae aelwydydd Pacistanaid, Bangladeshaid a Du Affricanaid yn llawer mwy tebygol o fod ag incwm isel nag aelwydydd gwyn neu Indiaidd.<sup>179</sup>

---

<sup>175</sup> The Poverty Site, <http://www.poverty.org.uk/summary/income.htm>, cyrchwyd 10fed Ionawr 2011

<sup>176</sup> The Poverty Site, <http://poverty.org.uk/07/index.shtml?2>, cyrchwyd 14<sup>eg</sup> Chwefror 2011

<sup>177</sup> The Poverty Site, <http://www.poverty.org.uk/summary/income.htm>, cyrchwyd 10fed Ionawr 2011

<sup>178</sup> NPI analysis of Households Below Average income dataset, 2006/07 to 2008/09 combined.

<sup>179</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 481

## Tai ac ansawdd y gymdogaeth

Mae'r gyfran o aelwydydd yng Nghymru sydd wedi'u pennu fel gorlawn, ar 2.0%, ychydig yn is na chyfartaledd Prydain o 2.3%. Mae gorlenwi'n fwy cyffredin ymysg aelwydydd ble mai oedolion iau yw'r penteulu, a lleiaf cyffredin ymysg aelwydydd ble mai pensiywr yw'r penteulu. Mae hyn yn wir yng Nghymru yn ogystal â gweddill Prydain.<sup>180</sup>

Mae 6% o aelwydydd gyda phlant yng Nghymru sydd â menyw'n benteulu wedi'u pennu fel gorlawn o'i gymharu â 4% ar gyfer aelwydydd gwrywaidd gyda phlant. Mae 8% o aelwydydd gyda phlant yng Nghymru sydd â menyw'n benteulu, gyda llawer ohonynt yn aelwydydd rhiant sengl, yn byw mewn llety safon isel o'i gymharu â 5% o aelwydydd o'r fath sydd â dyn yn benteulu.<sup>181</sup>

Dywedodd 8% o aelwydydd yng Nghymru bod problem yn eu hardal leol â sbwriel a glendid cyffredinol yr amgylchedd. Dywedodd 6% bod problem â throedd a diogelwch.<sup>182</sup> Yng Nghymru fel mewn mannau eraill, roedd aelwydydd sydd â menyw'n benteulu yn fwy tebygol o nodi eu hardaloedd lleol fel rhai gwael nag aelwydydd sydd â dyn yn benteulu. Roedd aelwydydd iau yn fwy tebygol o ddweud bod eu hardaloedd yn dlawd nag yr oedd aelwydydd hŷn.<sup>183</sup>

Mae meintiau sampl yn gwneud dadansoddiad yn anodd, ond mae'r data'n awgrymu bod aelwydydd lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn llawer mwy tebygol o fod yn orlawn na'r cyfartaledd (tua 10% o'i gymharu â 2%). Mae aelwydydd lleiafrifoedd ethnig ychydig mwy tebygol o nodi eu cymdogaethau fel rhai tlawd, ond eto, mae maint y sampl yn fach iawn.<sup>184</sup>

---

<sup>180</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 490

<sup>181</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 491

<sup>182</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Arolwg Byw yng Nghymru, 2008

<sup>183</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 496

<sup>184</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 505



## Eithrio ariannol

Yn 2008/09, roedd 4% o aelwydydd yng Nghymru heb gyfrif banc o gwbl. Mae hyn yn cynyddu i 5% os yw'r Cyfrif Cerdyn Swyddfa Bost (POCA, cyfrif â swyddogaeth gyfyngedig) yn cael ei eithrio. Mae'r gyfran wedi gostwng mewn blynyddoedd diweddar yng Nghymru yn yr un modd ag ym Mhrydain yn ei chyfanrwydd.<sup>185</sup>

Mae aelwydydd sydd yn y pumed tlotaf o'r dosbarthiad incwm yng Nghymru tua dwywaith mwy tebygol o fod heb gyfrif banc ag yw aelwydydd eraill.<sup>186</sup>

Ar draws Prydain yn ei chyfanrwydd, ychydig o wahaniaeth sydd yn ôl rhywedd mewn mynediad i fancio heblaw ymysg y bobl ieuengaf a hynaf. Mae dynion ifanc ychydig yn fwy tebygol o fod heb gyfrif banc (7%) na menywod ifanc (5%), ac mae menywod hŷn (5%) ychydig yn fwy tebygol o fod heb gyfrif banc na dynion hŷn (3%).<sup>187</sup>

Mae pobl anabl a phobl mewn aelwydydd Bangladeshaid a Phacistanaid yn arbennig o debygol o fod heb gyfrif banc. Mae aelwydydd Bangladeshaid a Phacistanaid, ynghyd ag aelwydydd Du Caribiaid, hanner mor debygol o fod ag yswiriant tŷ ag aelwydydd gwyn.<sup>188</sup>

Yn nhermau mynediad i gredyd, mae menywod yn fwy tebygol na dynion i gymryd credyd gan fenthycwyr carreg drws, sy'n aml yn codi cyfraddau llog llawer uwch na banciau prif ffrwd.<sup>189</sup>

---

<sup>185</sup> Adran Gwaith a Phensiynau, Family Resources Survey, 2008/09

<sup>186</sup> The Poverty Site, <http://poverty.org.uk/w73/index.shtml> cyrchwyd 03 02 2011

<sup>187</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 511

<sup>188</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 515

<sup>189</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 512

# Gofal a Chefnogaeth

## Pwyntiau allweddol

- Ymysg pobl hŷn yng Nghymru, mae'r nifer sy'n derbyn gofal i fyw yn y cartref wedi gostwng dros y ddegawd ddiwethaf. Mae gofal o'r fath yn hynod o bwysig i bobl dros 75 oed.
- Mae gwahaniaethau diwylliannol yn achos defnydd o ofal a mynediad at ofal i bobl hŷn.
- Mae gofal di-dâl gan gyfeillion neu berthnasau yn fwy tebygol o gael ei ddarparu gan fenywod na dynion, ac mae oedolion hŷn yn fwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofal nag oedolion iau. Mae nifer sylweddol o ofalwyr o oedran ysgol y dylid ystyried eu hanghenion o safbwynt hawliau.

## Mynediad at ofal i bobl hŷn

Mae'r nifer o bobl hŷn sy'n cael cymorth i fyw yn eu cartref gan y gwasanaethau cymdeithasol nawr yn is nag yr oedd yng nghanol y 1990au. Yn 2009, cafodd 20,000 o bobl hŷn yng Nghymru ofal yn y cartref, hanner y nifer oedd yn cael hynny bymtheng mlynedd yn ôl.<sup>190</sup> Digwyddodd y rhan fwyaf o'r gostyngiad hwn yn y 1990au hwyr, a gellir gweld patrwm tebyg yng Nghymru.

Ym Mhrydain, mae dynion yn llai tebygol na menywod o dderbyn cymorth ymarferol i gwrdd â'u hanghenion. Fodd bynnag mae'n ymddangos bod pobl hŷn yn fwy tebygol o gael y cymorth maent ei angen: mae dynion a menywod dros 75 oed yn llai tebygol o adrodd fod ganddynt anghenion gofal a chefnogaeth sydd heb eu diwallu na'r rheiny rhwng 50-74 oed.<sup>191</sup>

Ychydig o wahaniaeth sydd rhwng gwahanol grwpiau ethnig wrth gael mynediad i ofal proffesiynol yn y cartref. Ond mae ffactorau diwylliannol yn golygu nad yw gwasanaethau bob amser yn briodol i'r holl unigolion. Mae gan bobl o grwpiau sosio-economaidd is ar gyfartaledd anghenion gofal mwy ar oeddrannau penodol.

---

<sup>190</sup> Source: The Poverty Site, <http://poverty.org.uk/w69/index.shtml> cyrchwyd 11eg Ionawr 2011

<sup>191</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 528

## Defnyddio gofal plant

Mae'r niferoedd cyffredinol o leoedd gofal plant yng Nghymru wedi cynyddu o 4,000 ers 2003.<sup>192</sup> Mae dwy ran o dair o deuluoedd â phlant yng Nghymru yn defnyddio rhyw ffurf o ofal plant.<sup>193</sup> Mae defnydd yn amrywio'n ôl incwm yr aelwyd gyda theuluoedd mwy ffyniannus yn fwy tebygol o gael mynediad i ofal plant na theuluoedd ag incwm is (roedd 75% o deuluoedd ag incymau blynyddol o dros £32,000 wedi cael mynediad i ryw ffurf o ofal plant (ffurfiol neu anffurfiol) yn y flwyddyn flaenorol, o'i gymharu â 60% o deuluoedd ag incymau o dan £10,000). Mae'n glir bod statws gwaith yn chwarae rhan fawr yn hyn gan fod teuluoedd ble fo'r rhieni'n gweithio yn fwy tebygol o fod eisiau gofal plant a mwy tebygol o allu talu amdano.

Mae ymchwil graddfa fach yn awgrymu mae mater sy'n benodol i Gymru yw'r diffyg gofal plant iaith Gymraeg. Mae hyn yn fater mewn ardaloedd sy'n draddodiadol yn siarad Cymraeg, ac ardaloedd eraill ble byddai'r rhieni'n hoffi i'w plant gael magwraeth ddwyieithog.

## Cyfrifoldebau gofal di-dâl

Mae mwy nag un o bob deg o'r boblogaeth oedolion yng Nghymru yn darparu gofal i rywun arall - 11% o'r boblogaeth oedolion o'i gymharu â 12% yn Lloegr a'r Alban, yn ôl Cyfrifiad 2001. Mae saith allan o ddeg o'r awdurdodau lleol â'r ganran uchaf o ofalwyr yng Nghymru.<sup>194</sup>

Mae cyfrifoldebau gofal yn amrywio'n ôl grŵp sosio-economaidd drwy Brydain yn ei chyfanrwydd. Mae pobl rhwng 55-69 oed o grwpiau galwedigaethol is yn fwy tebygol o fod yn gofalu am briod na'r rheiny o grwpiau uwch. Mae hyn yn adlewyrchu digwyddiad uwch o anabledd ymysg grwpiau cymdeithasol economaidd is, a'r diffyg incwm i dalu costau gofal.<sup>195</sup>

---

<sup>192</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Child Poverty Milestones and Targets to 020: Update

<sup>193</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 542

<sup>194</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 559

<sup>195</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 564

Fel yn y DU yn ei chyfanrwydd, mae'n fwy cyffredin i ofal gael ei roi gan fenywod na dynion: roedd 10% o fenywod yn darparu gofal arbennig, o'i gymharu ag 8% o ddynion.<sup>196</sup> Mae'r gyfran hon o oedolion sy'n darparu gofal uchaf ymysg y rheiny sydd rhwng 50-59 oed, ar 14%, ac isaf ymysg unigolion rhwng 16-24 oed, ar 4%.<sup>197</sup>

Canfu Arolwg Iechyd Cymru bod oedolion iau â chyfrifoldebau gofal yn fwy tebygol na'r rhai nad ydynt yn gofalu o adrodd ynglŷn â cyflyrau iechyd tymor hir neu broblemau iechyd meddwl<sup>198</sup>. Mae data arall yn awgrymu bod tua 2% o blant yng Nghymru o bosib â chyfrifoldebau gofal. Gall y cyfrifoldebau hyn fynd yn groes i'w hawliau fel plant.<sup>199</sup>

Mae pobl anabl yn ofalwyr hefyd. O'r bron i ddwy filiwn o bobl rhwng 16-74 oed yn Lloegr a Chymru sy'n barhaol sâl neu anabl yn ôl Cyfrifiad 2001, roedd dros chwarter miliwn yn darparu peth gofal di-dâl i bobl eraill. Mae'r gyfradd hon yn cymharu â'r gyfradd i weddill y boblogaeth.<sup>200</sup>

Mae oedolion Bangladeshaid a Phacistanaid yng Nghymru yn fwy tebygol o ddarparu dros 20 awr o ofal yr wythnos nag oedolion o grwpiau ethnig eraill.<sup>201</sup>

---

<sup>196</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008), Gofal yng Nghymru: Canlyniadau o'r Arolwg Byw yng Nghymru 2007

<sup>197</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Gofal yng Nghymru: Canlyniadau o'r Arolwg Byw yng Nghymru 2007. NB defnyddir diffiniad gwahanol o ofal i'r hyn a geir yn y Cyfrifiad.

<sup>198</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Arolwg Iechyd Cymru 2008, Iechyd Gofalwyr

<sup>199</sup> Comisiynydd Plant Cymru (2009) Llawn Gofal: Gofalwyr Ifanc yng Nghymru.

<sup>200</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 566

<sup>201</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 567

## Grym a Llais

### Pwyntiau allweddol

- Mae'r gyfran o bobl sy'n pleidleisio mewn etholiadau wedi gostwng.
- Nid yw'r ymgeiswyr y gall pobl bleidleisio iddynt bob amser yn gynrychioliadol o'r boblogaeth. Dim ond un rhan o bump o ASau San Steffan o Gymru a chwarter o'i chynghorwyr sy'n ferched. Mae dynion hŷn yn tueddu i ddominyddu yn ôl niferoedd mewn awdurdodau lleol.
- Grym a llais cyfyngedig sydd gan bobl o grwpiau a ddiogelir.

### Cyfranogiad wleidyddol ffurfiol

Ystyrir yma wahanol agweddau o gyfranogiad yn y broses wleidyddol ffurfiol gan gynnwys y ganran o bobl sy'n pleidleisio a chynrychioladwyedd y prif sefydliadau democrataidd.

Mae'r nifer o bleidleisiodd yn ôl hunan-adrodd mewn etholiadau Cymru wedi gostwng ers sefydlu'r Cynulliad yn 1999.<sup>202</sup> Dros yr un cyfnod, gostyngodd y ganran o bobl a bleidleisiodd ar draws y DU yn achos etholiadau San Steffan yn 2001 a 2005, cyn cynyddu ychydig yn 2010.

Ychydig iawn o dystiolaeth sydd ynghylch amrywiaeth yn y ganran a bleidleisiodd yn achos grwpiau gwahanol. Roedd y ganran a bleidleisiodd ymysg pleidleiswyr Asiaidd yn uwch yn 2005 nag yn 1997, nid oedd wedi newid ymysg pleidleiswyr gwyn, ac roedd yn is ymysg pleidleiswyr du, hil gymysg a Tsieineaidd. Mae peth tystiolaeth yn awgrymu bod pobl ifanc yn llai tebygol o bleidleisio na phobl hŷn.<sup>203</sup>

Yn nhermau cynrychioliaeth, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn adnabyddus am fenywod sy'n cyfrif am oddeutu hanner yr aelodau 2007 - 2011. Ond dim ond 18% o ASau sy'n fenywod a dim ond 25% o gynghorwyr.

---

<sup>202</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 582

<sup>203</sup> Gale, S. and Winckler, V. (2009) Public and Political Life, in Winckler, V. (ed) Equality Issues in Wales – a Research Review, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae gwybodaeth am gynrychiolaeth wleidyddol arall yn gyfyngedig iawn: gwyddys yn 2004 fod mwy na hanner y cynghorwyr yng Nghymru dros 55 oed; bod 17% o gynghorwyr Cymru â salwch cyfyngus tymor hir neu'n anabl (o'i gymharu â 23% yn y boblogaeth ar y cyfan), a llai nag 1% o gynghorwyr o gefndiroedd lleiafrif ethnig, o'i gymharu â thua 2% o'r boblogaeth gyffredinol.<sup>204</sup>

Mae'r nifer o aelodau LGB agored yn senedd San Steffan wedi cynyddu mewn blynyddoedd diweddar i 22.<sup>205</sup> Mae'n anodd cymharu hyn â'r boblogaeth gyffredinol, ond mae wedi'i dangynrychioli yn ôl rhai amcangyfrifon.

## **Canfyddiad o ddylanwad a gweithgareddau gwleidyddol**

Ychydig o dystiolaeth sydd ar naill ai sut mae pobl yn teimlo am eu lefel o ddylanwad yn lleol neu eu lefel o weithgaredd gwleidyddol yng Nghymru.

Ym Mhrydain mae synnwyr o ddylanwad pobl yn eu hardal leol wedi gostwng ers 2001. Mae rhai o'r grwpiau lleiafrifol ethnig a chrefyddol sydd wedi'u hymyleiddio'n draddodiadol yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o gredu bod ganddynt ddylanwad, o bosib oherwydd clymau cryfach o fewn eu cymunedau eu hunain.<sup>206</sup>

Mae peth tystiolaeth o Loegr bod lefelau o weithgaredd gwleidyddol (wedi'i ddiffinio fel ysgrifennu at ASau neu fynychu cyfarfodydd cyhoeddus) yn uwch ymysg grwpiau oedran hŷn na rhai iau, ac yn uwch ymysg pobl o grwpiau sosio-economaidd uwch na rhai is. Mae'n ymddangos bod pobl wyn yn fwy gweithredol yn wleidyddol (fel y'i diffinnir yma) na grwpiau ethnig eraill.<sup>207</sup>

Canfu Stonewall Cymru yn eu harolwg bod 13% o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn rhan o wleidyddiaeth leol, ond nid oes unrhyw ddata arall y gellir meincnodi'r ffigur hwn yn ei erbyn.<sup>208</sup>

---

<sup>204</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 596

<sup>205</sup> Adroddiad newyddion y BBC, cyrchwyd 03 02 2011

<sup>206</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 598

<sup>207</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 609

<sup>208</sup> Williams, M. and Robinson, A.L. (2007) Counted In! The All Wales Survey of Lesbian, Gay and Bisexual People. Llundain: Stonewall

## Cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau a sefydliadau ymgyrchu

Mae menywod a dynion yn gyfartal o ran tebygolrwydd o gymryd rhan mewn ymgyrchu, er mewn meysydd gwahanol. Mae menywod yn fwy tebygol o wirfoddoli ar gyfer grwpiau addysgol neu ofal plant (hyd at 15 % o fenywod o dan 45 oed), ble fo dynion yn fwy tebygol o fod yn rhan o chwaraeon (hyd at 25% i unigolion 16-29 oed).<sup>209</sup>

Mae pobl sy'n gweithio yn y galwedigaethau proffesiynol neu reolaeth uwch dros bedair gwaith mwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgaredd ymgyrchu lleol neu genedlaethol na'r rheiny mewn galwedigaethau hanner-ailadroddus. Roedd cyfran debyg o bobl anabl (6%) a phobl heb anabledd (7%) yn rhan o ymgyrchu lleol neu genedlaethol.<sup>210</sup>

Ychydig o wahaniaeth a welir yn y data ar gyfer Lloegr rhwng cyfranogiad yn ôl grwpiau ethnig neu grefyddol, neu gyfeiriadedd rhywiol.

---

<sup>209</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, Byw yng Nghymru 2008

<sup>210</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain? tudalen 617

## Rhoi sylw i'r bylchau data

Mae'r Adolygiad yn cynnwys llawer o wybodaeth. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, mae'n pwysleisio'r hyn nad ydym yn ei wybod. Mae sawl ffordd ble nad oes gennym wybodaeth ddibynadwy i allu dweud p'un a yw delfrydau cydraddoldeb a thegwch yn cael eu trawsnewid i ddulliau ymarferol i hyrwyddo gwelliannau ym mywydau gwirioneddol pobl.

Mewn rhai achosion mae gennym ddiffyg gwybodaeth lwyr. Er enghraifft, nid oes gennym amcangyfrif gwaelodlin dibynadwy ynghylch faint o bobl sy'n dynodi'i hunain fel lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywedd.

Heb y wybodaeth hon, mae'n anodd dechrau mesur i ba raddau y mae gwahanol sefydliadau'n adlewyrchu'r poblogaethau hyn neu'n cwrdd â'u hanghenion. Rydym hefyd â diffyg gwybodaeth sylfaenol am bobl sydd wedi eu sefydliadu, a phobl nad ydynt yn byw mewn lleoliadau sefydlog. Mewn rhai achosion, mae astudiaethau graddfa fach a'r dystiolaeth gyfyngedig arall sydd ar gael, yn awgrymu y gallai'r rhain hefyd fod ymysg rhai o'r grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf ac sydd fwyaf bregus mewn cymdeithas.

Mewn achosion eraill, mae gennym beth gwybodaeth am wahanol grwpiau, ond nid yw bob amser yn ddigon soffistigedig i ganiatáu i ni i ddod i gasgliadau defnyddiol. Mae gennym beth data ynghylch profiadau pobl anabl, er enghraifft, ond yn y rhan fwyaf o achosion nid yw'r modd y mae'r data wedi'i gasglu yn nodi'r gwahaniaeth rhwng profiadau (dyweder) unigolyn 20 oed sydd wedi bod yn ddall o'i enedigaeth, ac unigolyn 80 oed sydd wedi dechrau defnyddio cadair olwyn yn ddiweddar oherwydd damwain, pan mewn gwirionedd bod y ddau gydag anghenion a disgwyliadau gwahanol iawn.

Byddai defnydd gwell o ffynonellau data presennol, a thechnegau casglu data mwy soffistigedig, yn caniatáu i ni ddeall yn well yr anghenion a dyheadau amrywiol sydd gan wahanol bobl. Mae hyn yn hanfodol er mwyn deall p'un a sut yr ydym yn gwneud cynnydd fel cymdeithas tuag at well cydraddoldeb. Rydym yn argymhell, felly, y dylai cyflenwyr a chomisiynwyr data weithio gyda'i gilydd i wella'r data cydraddoldeb sydd ar gael, ac i wneud defnydd mwy effeithiol o'r data sydd eisoes ar gael ar lefel leol a chenedlaethol. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng Nghymru lle mae bylchau arwyddocaol.



# Cysylltwch â ni

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn anelu at ostwng anghydraddoldeb, gael gwared ar wahaniaethu, gryfhau perthynas dda rhwng pobl, ac hyrwyddo ac amddiffyn hawliau dynol.

Gellir dod o hyd i'r adroddiad hwn a rhagor o wybodaeth amdanom ar:

[www.equalityhumanrights.com/hafan/cymru](http://www.equalityhumanrights.com/hafan/cymru)

neu gallwch cysylltu â'n llinell gymorth:

Ffôn: 0845 604 8810

Ffôn Destun: 0845 604 8820

Ffacs: 0845 604 883

© Equality and Human Rights Commission Cyhoeddwyd

Mawrth 2011

ISBN 978-1-84206-355-2



**All Wales Hate Crime Research Project: Event Report**  
**‘Understanding the Criminal Justice System’ Seminar**  
**2pm, Wednesday 27<sup>th</sup> October 2010**  
**County Hall, Cardiff**

## **Introduction**

22 representatives from 13 organisations attended the event, including local voluntary organisations and Cardiff Council. The support of Cardiff County Council in providing the venue and refreshments is gratefully acknowledged.

Mair Rigby (Project Officer) welcomed everyone to the event and ran through the agenda for the afternoon. During the first part of the afternoon a panel of representatives from criminal justice agencies would respond to three hate crime case studies and answer questions from the audience. This would be followed by a workshop session in which the audience would be consulted about their views on the criminal justice system.

